Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014-2020
Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gogledd Cymru (FLAG)

Strategaeth Datblygu Lleol
Medi 2016

Enw:	Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gogledd Cymru

Rheolwr Rhaglen

Enw **Ffôn:** **E-bost:** **Cyfeiriad:**	Jane Davies 01248 725700 jane@mentermon.com Neuadd y Dref Sgwâr Bulkeley Llangefni Ynys Môn LL77 7XA

Uwch Swyddog

Enw **Ffôn:** **E-mail:** **Cyfeiriad:**	Craig Hughes 01248 725707 craig@mentermon.com Neuadd y Dref Sgwâr Bulkeley Llangefni Ynys Môn LL77 7XA

AMSERLEN GWEITHREDU'R SDLl

Dyddiad cychwyn	**1af Rhagfyr 2016**
Dyddiad gorffen	**31ain Rhagfyr 2021**

ADRAN 1 – CYWEDDU STRATEGAETHAU

1.1 Diffiniad o ardal a phoblogaeth y strategaeth

Trosolwg:

Gogledd Cymru yw'r rhanbarth answyddogol mwyaf gogleddol yng Nghymru, wedi'i rannu'n draddodiadol yn dri rhanbarth: Gwynedd Uchaf (neu Wynedd Uwch Conwy); Gwynedd Isaf (neu Wynedd Is Conwy); ac Ynys Môn, ynys fawr oddi ar arfordir y Gogledd Orllewin.

Mae gan y rhanbarth ddwysedd poblogaeth isel ac mae llawer o drefi a phentrefi arfordirol wedi profi newid demograffig anghymesur o'i gymharu â rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd allfudiad pobl ifanc pobl oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth, ynghyd â mewnfudo gan bobl hŷn sy'n ymddeol i'r ardal. Ar ei anterth, roedd gan Ogledd Cymru ddibyniaeth gref ar bysgota ac fe'i gwelir fel un o'i diwydiannau hynaf.

Heddiw, er bod gan y rhanbarth ddiwydiant Pysgod Cregyn a Dyframaethu cryf, mae wedi addasu i ofynion sectorau newydd. Gwelodd Gogledd Cymru gynnydd yn y sector twristiaeth, sydd bellach yn gyrchfan darged ar gyfer chwaraeon dŵr a physgota hamdden ac mae'n cynnal 45% o Lwybr Arfordirol Cymru (Llwybrau Arfordirol Gogledd Cymru ac Aber Afon Dyfrdwy, Ynys Môn a Menai, Llŷn a Meirionnydd, 626km). Yn ogystal, mae porthladdoedd fel Mostyn wedi dod yn chwaraewr pwysig fel canolfan ar gyfer y diwydiant adeiladu a chefnogi ffermydd gwynt ar y môr.

Yn benodol, dominyddwyd diwydiant pysgota traddodiadol Gogledd Cymru yn fwy diweddar gan Bysgod Cregyn, a ddosberthir ledled y DU ond sydd hefyd yn cael eu hallforio i Ewrop ac Asia, gyda diwydiant pysgod cregyn masnachol gwerth miliynau o bunnoedd wedi'i sefydlu'n gadarn ar y Fenai.

Ar Ynys Môn, roedd pentrefi fel Moelfre a Bae Cemaes yn cael incwm sylweddol o bysgota a diwydiannau cysylltiedig, ac roedd gan y ddau fflyd bysgota gref. Roedd Porth Amlwch yn borthladd pwysig o ran adeiladu llongau a oedd yn nodedig nid yn unig oherwydd adeiladu llongau a masnach gyda'r tir mawr ac Iwerddon, ond hefyd ar gyfer fflyd bysgota gref a bywiog ar hyd arfordir 301km Gwynedd, ac yn enwedig Gogledd Llŷn.

Nodweddion Ffisegol:
Nodweddir Gogledd Cymru gan dirwedd ucheldirol fynyddig, ardaloedd eang o gefn gwlad agored uchel ac arfordir hir; mae ansawdd Parc Cenedlaethol Eryri ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, fel Pen Llŷn ac ardaloedd a ddynodwyd yn fyd-eang fel y Biosffer DipHE, yn dangos ansawdd y gwaith. Mae'r ardal yn brin ei phoblogaeth ac mae ei thrigolion yn byw mewn aneddiadau bach wedi'u gwasgaru dros ardal ddaearyddol eang.

Dynodiadau amgylcheddol yng Ngogledd Orllewin Cymru:





Bydd ardal arfaethedig FLAG Gogledd Cymru yn cynnwys porthladdoedd o Gei Conna yn Sir y Fflint i Bwllheli yng Ngwynedd. Mae cyfanswm o 22 o borthladdoedd a 3 safle dyframaeth sydd wedi cofnodi glaniadau o 2010 i 2014, ac mae 17 ohonynt â 3 llong neu fwy naill ai wedi'u cofrestru neu'n glanio'n rheolaidd. Fodd bynnag, yn ein barn ni ac o weithio gyda'r grŵp FLAG blaenorol, mae rhai o'r porthladdoedd yn cyfrannu at y gymuned ac yn rhan annatod ohoni, gyda chyfleusterau twristiaeth, cyfleusterau angori (ond nid digon o seilwaith glanio) ac maent yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol ardal.

Aber Afon Dyfrdwy – Mae traddodiad o bysgota dyfnforol yn aber Afon Dyfrdwy bob amser ac mae gan Bagillt laniadau cofnodedig rheolaidd rhwng 2010 a 2014. Yn ogystal â hyn, mae Cei Connah hefyd wedi elwa ar gyfranogiad cymunedol, Cymdeithas Dyfrffyrdd y Cei, a grëwyd i ddiogelu diwylliant pysgotwyr yr ardal a'u ffordd o fyw yn ogystal ag integreiddio'r sector gyda digwyddiadau a chadwyn gyflenwi leol. Gallai Maes-glas ddarparu mwy o gyfleusterau i'r rhai na allant ddefnyddio Mostyn oherwydd pwysau ar gyfleusterau sector.

Y Rhyl – mae pysgota o amgylch fflatiau'r Rhyl yn weithredol ond mae glaniadau i'r harbwr newydd, Harbwr Foryd, yn gyfyngedig yn y cyfnod a adolygwyd. Fodd bynnag, mae'r dirywiad economaidd y mae'r Rhyl wedi bod ynddo yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn arwydd o'i ddatgysylltiad oddi wrth ei arfordir gweithio. Yma gallai'r strategaeth ddatblygu nodi p'un a oes gan yr ardal hon sgôp le i adfywio'r sector a'i ddiwylliant lleol.

Bae Conwy – Mae'r bae yn ardal lanio i gregyn gleision traddodiadol gan ddefnyddio cribinio llaw effaith isel. Mae busnes puro a phrosesu lleol, Cregyn Gleision Conwy, yn cefnogi cadwyn gyflenwi hanesyddol a chyfleusterau hanfodol i'r pysgotwyr cregyn gleision lleol. Yn ogystal, defnyddiwyd yr ardal fel gwely hadau cregyn gleision, un o welyau hadau'r DU sy'n hanfodol i sector dyframaethu Gogledd Cymru. Y bwriad yw y bydd rhywfaint o ddatblygiad ar y cei, ond bydd hyn yn cael ei adolygu yn y strategaeth ddatblygu.

Afon Menai – Mae gan yr afon hon ddiwydiant pysgota traddodiadol hir, ac mae'n bwysig cydnabod gwerth cyffredinol a chyfalaf amgylcheddol Afon Menai. Mae'n adnodd morol pwysig iawn sy'n

cynnal diwydiant pysgod cregyn masnachol gwerth miliynau o bunnoedd. Cynrychiolir y Sector Dyframaethu yn dda gyda glanfa grŵp Cregyn Gleision Bangor ym Mhorth Penhryn a Menai Oysters, sy'n cynrychioli dros 60% o'r gwerth glanio yn y cyfnod pedair blynedd.

Bae Caernarfon - Mae gan Fae Caernarfon sector pysgota cregyn bylchog cryf ac mae'n darparu gwely môr pellach i'r sector dyframaethu lleol. Mae'n borthladd poblogaidd gyda chysylltiad diwylliannol cryf â'r culfor.

Gogledd-orllewin Ynys Môn - Caergybi yw'r prif borthladd glanio yng Ngogledd Cymru, sy'n cyfrif am 29% o'r gweithgarwch economaidd yn yr ardal. Yn ogystal, mae ganddo ddau fusnes puro a phrosesu pysgod cregyn a chyflogaeth mewn ardal o ddiweithdra uchel.

Gogledd Ddwyrain Ynys Môn - Amlwch a Bae Cemaes. Pysgod cregyn a geir yma'n bennaf, gyda chyfran uchel yn cynnwys gwichiad, crancod a chimychiaid. Mae'r ddau borthladd yn chwarae rhan annatod yn economi'r ddwy ardal, nid yn unig yn y sector pysgota, ond mae twristiaeth, fel pysgota chwaraeon/hamdden yn incwm ychwanegol sy'n cefnogi'r pysgotwyr lleol hyn.

Pen Llŷn - Porth Colmon, Aberdaron, Abersoch, Morfa Nefyn a Phwllheli. Unwaith eto, cysylltiad cryf â'r sector pysgota, gydag amrywiaeth o bysgod cregyn yn dominyddu'r ddalfa. Mae yna hefyd uned brosesu yn Aberdaron, ac mae gan y 5 porthladd dros 30 o longau wedi'u cofrestru ac yn glanio rhyngddynt.

Nodweddion Demograffig

Ward/Porth	Cyf Map	Sir	Poblogaeth	Cyfanswm y Glaniadau 2010-2014 (Kg)
Cei Conna	1	Sir y Fflint	17,500	13,132
Bagillt G	2	Sir y Fflint	4,165	16,953
Maes-glas	3	Sir y Fflint	2,741	51
Mostyn	4	Sir y Fflint	1,844	313
Rhyl	5	Sir Ddinbych	25,149	5,620
Conwy	8	Conwy	14,723	173,876
Bangor - Penrhyn	7	Gwynedd	18,808	9,678,673
Beaumaris	8	Ynys Môn	1,938	711
Gwyngyll - Porthaethwy	9	Ynys Môn	-	2,215
Afon Menai - Bangor Mussels (amcan.)	10	Gwynedd	amh.	10,000,000
Brynsiencyn - Menai Oysters	11	Ynys Môn	amh.	2,000,000
Porthyfelin - Caergybi	12	Ynys Môn	11,431	13,611,26
Treaddur - Rhoscolyn	13	Ynys Môn	542	5,770
Llanbadrig - Cemaes Bay	14	Ynys Môn	1,357	8,930
Amlwch Porth	15	Ynys Môn	3,789	2,560,345
Caernarfon Menai	16	Gwynedd	9,615	258,990
Tudwelliog -Trefor	17	Gwynedd	1,560	7,809
Morfa Nefyn	18	Gwynedd	1,229	1,406,038
Llanaelhaearn - Porth Colmon	19	Gwynedd	970	11,382
Aberdaron	20	Gwynedd	965	136,632
Abersoch	21	Gwynedd	783	12,146
Pwllheli	22	Gwynedd	4,076	731,029
			140,634	

Poblogaeth Arfordir Gogledd Cymru yn ôl cyfrifiad 2011 oedd 140,634, fel y nodir yn y tabl uchod. Dangosir ardal cwmpas Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gogledd Cymru yn y map isod, gan nodi'r 'rhanbarthau' ar hyd yr arfordir y mae'r strategaeth ddatblygu wedi dewis eu defnyddio fel cylch gorchwyl ar gyfer ei gynigion

'Rhanbarthau' ffocws FLAG Gogledd Cymru



1. Cei Conna
2. Bagillt
3. Maes-glas
4. Mostyn
5. Rhyl
6. Conwy
7. Beaumaris
8. Penhryn/Bangor
9. Porthaethwy
10. Anglesey Oysters
11. Bangor Mussel Producers
12. Caergybi
13. Rhoscolyn
14. Bae Cemaes
15. Amlwch
16. Caernarfon
17.Trefor
18. Morfa Nefyn
19.Porth Colmon
20. Aberdaron
21.Abersoch
22. Pwllheli

1.2 Alinio ac Integreiddio Strategol
Alinio Strategaeth Gogledd Cymru â nodau ac amcanion Rhaglen Weithredol EMFF, Blaenoriaeth Undeb 4 Nod Blaenoriaeth Undeb 4 Rhaglen Weithredol EMFF yw **cynyddu cyflogaeth a chydlyniad tiriogaethol** drwy 5 amcan penodol, hyrwyddo twf economaidd, cynhwysiant cymdeithasol a chreu swyddi, a darparu cymorth ar gyfer cyflogadwyedd a symudedd llafur mewn cymunedau arfordirol a mewndirol sydd yn dibynnu ar bysgodfeydd a dyframaeth, gan gynnwys arallgyfeirio o bysgodfeydd i sectorau eraill o fewn yr economi forwrol. Mae Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gogledd Cymru wedi cwmpasu holl amcanion rhaglen EMFF o fewn eu 15 amcan penodol eu hunain, yn deillio o'r anghenion a'r cyfleoedd a nodwyd a amlygwyd gan yr ymgynghoriad a dadansoddiad SWOT. Canolbwyntia'r strategaeth yn benodol ar gynyddu'r cyfleoedd yn y diwydiannau pysgodfeydd a dyframaethu trwy ymchwilio i dechnegau arloesol o ddiogelu'r cynhyrchiad cynradd (e.e. ymchwil i stociau/gwelyau hadau cynaliadwy) i barhau â chyflenwad iach o bysgod cregyn, i wella gallu prosesu yr ardal hyd at gefnogi treialu canolfannau dosbarthu a gwelliannau mewn arbedion effeithlonrwydd prosesu. Mae hyrwyddo twf economaidd yn allweddol, gan sicrhau bod pob elfen o'r gadwyn gyflenwi yn cael eu cefnogi. Yn ogystal, trwy raglenni hyfforddi sydd wedi'u treialu gyda'r sector preifat, mae codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd swyddi ar bob lefel sgiliau yn rhoi cymorth i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol i gynyddu eu cyflogadwyedd. Mae cynnwys y cymunedau sy'n dibynnu ar yr arfordir am eu bywoliaeth yn allweddol i gynyddu cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys y pysgotwyr, proseswyr, y sector lletygarwch a'r sector twristiaeth. Mae'n hanfodol bod y cymunedau cefnogol yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu prosiectau ar gyfer perchnogaeth o'r cyfle y manteisir arno, fel llwybr yr arfordir. Dengys y tabl isod amcanion penodol EMFF yn erbyn y 15 amcan rhanbarthol y cytunwyd arnynt.

Amcan EMFF	Amcan Penodol FLAGGC	Ffocws
Ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesedd ar bob cam o gadwyni cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu	SO1	Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaeth gychwynnol a rhoi gwerth ychwanegol i ddynameg cyflenwi a phrosesu lleol yn y sector bwyd.
	SO2	Gyrru'r agenda Bwyd Môr a Physgod Cregyn i fyny yng Ngogledd Cymru, gan gysylltu'n arbennig ag ychwanegu gwerth at gynnyrch sylfaenol ac arbenigedd Bwyd Môr
	SO3	Darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc yn eu sir gartref a chadw ein pobl ifanc yn yr ardal
	SO4	Darparu cyfle i bobl ifanc gael mynediad at gyfleusterau a hyfforddiant ar gyfer eu sector dewisol o fewn gwasanaethau pysgodfeydd, prosesu, manwerthu, lletygarwch neu bysgodfeydd
	SO5	Cydlynu consortia busnesau bwyd môr lleol i gael mynediad at gymorth ac ymgysylltu'n fwy llwyddiannus â gweithdrefnau caffael ffurfiol
	SO6	Hwyluso ymchwil ac arloesedd i gefnogi sectorau a nodwyd yn y gadwyn gyflenwi gyda'r bwriad o wella cynaliadwyedd a chysondeb
Cefnogi arallgyfeirio o fewn neu y tu allan i bysgodfeydd masnachol, dysgu gydol oes a chreu swyddi mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu	SO7	Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaeth gychwynnol a rhoi gwerth ychwanegol i ddynameg cyflenwi a phrosesu lleol yn y sector bwyd.
	SO8	Datblygu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a busnes i bobl leol drwy'r ynni adnewyddadwy
Gwella a manteisio ar asedau amgylcheddol yr ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys gweithrediadau i liniaru newid yn yr hinsawdd	SO9	Hwyluso ymchwil ac arloesedd i gefnogi sectorau a nodwyd yn y gadwyn gyflenwi gyda'r bwriad o wella cynaliadwyedd a chysondeb
	SO10	Nodi cyfleoedd i hyrwyddo arfordir gwyrdd glân Gogledd Cymru trwy hwyluso arferion amgylcheddol cynaliadwy
Hyrwyddo llesiant cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaeth, gan gynnwys pysgodfeydd a threftadaeth ddiwylliannol morol	SO11	Sicrhau gwerth economaidd lleol pellach i weithredwyr lleol o Lwybr Arfordir Gogledd Cymru a safleoedd Eiconig Cenedlaethol
	SO12	Sicrhau cefnogaeth a chysylltiad parhaus y gymuned arfordirol i'r sector pysgodfeydd
	SO13	Sicrhau cadwraeth y porthladdoedd bychain sy'n arwyddocaol yn ddiwylliannol a'u gwerth economaidd i'r gymuned arfordirol
Cryfhau rôl cymunedau pysgodfeydd mewn datblygu lleol a llywodraethu adnoddau pysgodfeydd lleol a gweithgareddau morol	SO14	Darparu cyngor, cefnogaeth a chyfleusterau i gymunedau lleol
	SO15	Darparu cefnogaeth a hwyluso prosiectau ymwybyddiaeth 'lleol' mewn cymunedau arfordirol

Amcan 1. Ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesedd ar bob cam o gadwyni cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu.

Fel y gwelir o'r tabl isod, ystyriwyd mai'r amcan hwn oedd yr amcan pwysicaf wrth ymdrin ag anghenion yr ardal, ond hefyd roedd yn gyfle gwych. Mae amcan penodol 1 **(SO1)** yn canolbwyntio ar sicrhau bod data gwaelodlin cryf yn cael ei ddefnyddio i werthuso prosesu arloesol a lleihau ynni o fewn y sector pysgodfeydd a dyframaeth. Bydd y FLAG yn gweithio ochr yn ochr â'r diwydiant i nodi prosiectau, gan gynnwys cynlluniau peilot a fydd yn herio'r diwydiant i nodi ac awgrymu gwelliannau prosesu cynaliadwy, gyda'r nod o wella costau a sicrwydd cyflenwad. Yn gyfochrog â hyn, mae **SO2** yn canolbwyntio ar herio'r gadwyn gyflenwi i ddatblygu cynhyrchion newydd o'r galw a nodir yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod USPs amgylcheddol da yn cael eu datblygu ymhellach a chydag ymgyrchoedd cefnogi mewn partneriaeth â sefydliadau fel ymgyrchoedd Bwyd a Diod Cymru gan Seafish a Llywodraeth Cymru. Mae **SO3 a SO4** yn canolbwyntio ar y farchnad lafur o fewn y gadwyn gyflenwi, gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc mewn sector sy'n heneiddio. Yma cynigir dau fath o gynllun, un wedi'i anelu at gadw ein graddedigion prifysgol ac un i ddenu pobl ifanc dan anfantais i lefel mynediad i'r diwydiant. Mae **SO5** yn canolbwyntio'n benodol ar fodelau cyfanwerthu lleol ac adeiladu cadwyn gyflenwi leol a all dendro, ar lefel gynaliadwy, ar gyfer cyflenwi cynnyrch ffres lleol. Dylai hyn ddangos yn arbennig lefel uchel o arloesi ac ymgorffori technoleg ddigidol. Yn olaf, mae **SO6** yn canolbwyntio ar ddatblygu grŵp ymchwil bach a fydd yn cyfeirio'r astudiaethau cadwyn gyflenwi at wella hunangynhaliaeth a chynaliadwyedd y cyflenwad lleol. O ymchwil a wnaed eisoes gan WFA, Prifysgol Bangor a chyrff eraill y llywodraeth a chyrff anllywodraethol, mae angen ymchwilio ymhellach i feysydd fel rheoli rhywogaethau ymledol a gwella hadau pysgod cregyn gwyllt ar gyfer cregyn gleision. Byddai'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu a defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol fel rhan annatod o unrhyw weithredu a dylunio prosiectau a gefnogir.

Cefnogi arallgyfeirio o fewn neu y tu allan i bysgodfeydd masnachol, dysgu gydol oes a chreu swyddi mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaeth.

Yn angen yn ogystal â chyfle, bydd y FLAG, **drwy SO7**, yn comisiynu astudiaeth fach i'r cyfleoedd arallgyfeirio posibl y tu allan i bysgodfeydd masnachol sy'n defnyddio'r diwydiant i ddatblygu prosiectau neu yrru cynlluniau peilot. Gallai hyn gynnwys twristiaeth neu gasglu data. Adlewyrchir hyn hefyd yn **SO8**, lle bydd datblygu cyfleoedd pellach yn y sector Twf Glas yn cael eu harchwilio. Yn ogystal, mae **SO8** yn darparu ar gyfer datblygu cymunedau o ddiddordeb ym mhorthladdoedd mwy yr ardal, wedi'u hwyluso gan staff FLAG, i nodi anghenion a chyfleoedd gydag amcan i fanteisio ar y sector adnewyddadwy ar y môr.
Gallai arallgyfeirio yn y sector pysgodfeydd gynnwys prosesu neu fanwerthu neu ddyframaethu. Ymgynghorir â'r diwydiant a'r cymdeithasau ar bob pwynt fel bod yr arallgyfeirio yn cael ei weithredu'n gynaliadwy. Gall aelodau FLAG hefyd wneud dewis gwybodus ar feini prawf y prosiectau y maent yn dymuno eu cefnogi.

Gwella a manteisio ar asedau amgylcheddol yr ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys gweithrediadau i liniaru newid yn yr hinsawdd.

Mae **SO9 ac SO10** yn canolbwyntio ar wella a manteisio ar asedau amgylcheddol yr ardal trwy dargedu datblygu a hyrwyddo arferion amgylcheddol ymhellach o fewn yr ardaloedd pysgodfeydd a dyframaeth. Drwy hyrwyddo ecsbloetio cynaliadwy trwy gefnogi ymchwil stoc pysgod, bydd y FLAG yn hyrwyddo'r defnydd o Wybodaeth Ecolegol Traddodiadol (TEC) a gwaith yr WFA a chymdeithion. Mae hyn yn hyrwyddo'r defnydd o bysgotwyr lleol ond mae angen cymorth i ddatblygu prosiectau peilot i ail-sgilio neu gefnogi'r pysgotwyr hynny. Gallai hyn gynnwys dulliau data arloesol i asesu statws y stoc pysgod

neu gefnogaeth i achrediad. Bydd y FLAG yn gweithio gyda'r WFA a sefydliadau eraill i sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd wrth ddewis prosiectau.

Hyrwyddo llesiant cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaeth, gan gynnwys pysgodfeydd a threftadaeth ddiwylliannol morol.

Mae **SO11, SO12 ac SO13** yn canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau o ddiddordeb gyda ffocws ar hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol ein hardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu. Mae SO11 yn nodi'n benodol y cyfleoedd i'r cymunedau pysgota ac arfordirol lleol wella'r cysylltiadau â safleoedd treftadaeth eiconig ac atyniadau eraill fel y llwybr arfordirol. Byddai'r sectorau lletygarwch, treftadaeth, pysgodfeydd a morol yn hwyluso datblygiad yn y maes hwn gyda phrosiectau fel technoleg ddigidol sy'n caniatáu i gaffis ayb. hyrwyddo eu dalfeydd ar y diwrnod arbennig. Gallai'r rhain hefyd gynnwys ymgyrchoedd â ffocws megis llwybrau pysgod lle gellir cyfarfod a siarad â'r pysgotwr lleol. Mae SO12 yn ailymweld â'r rhaglen addysg o fewn ysgolion cynradd o dan y Cynllun Llysgenhadon Bwyd Môr blaenorol gyda ffocws ar ardaloedd newydd y FLAG ond yn canolbwyntio ar nawdd gan y diwydiant i weithio gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau peilot arloesol. Mae SO13 yn canolbwyntio ar y porthladdoedd llai yn yr ardal ac yn nodi eu pwysigrwydd diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol i'r gymuned gyfagos. Bydd y FLAG yn canolbwyntio ar ddatblygu timau gweithredu cymunedol i asesu anghenion a chyfleoedd y porthladd a datblygu prosiectau i ymdrin â'r rhain gyda chefnogaeth y FLAG. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig ag SO15.

Cryfhau rôl cymunedau pysgodfeydd mewn datblygu lleol a llywodraethu adnoddau pysgodfeydd lleol a gweithgareddau morol.

Mae'r amcan terfynol yn canolbwyntio ar hwyluso'r cymunedau pysgodfeydd lleol i allu mewnbynnu a chryfhau eu rôl wrth reoli eu hardal leol. Bydd **SO14** yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cymorth i bysgotwyr, cymdeithasau a rhanddeiliaid lleol weithio gyda'i gilydd i wella'r defnydd o'n cyfleusterau arfordirol. Gallai hyn fod ar ffurf hyrwyddo arfer gorau, gwella cyfathrebu a dehongli codau neu gymhellion morol lleol i gefnogi adnabod a symud sbwriel. Mae **SO15** yn canolbwyntio ar y prosiectau Lleol i Leol, gan annog cefnogaeth i'r diwydiant gan y gymuned leol trwy ailgysylltu ac integreiddio. Bydd y FLAG yn dwyn ynghyd yr actorion lleol, sef penaethiaid ysgolion, manwerthwyr stryd fawr/pentref, tafarndai, gwely a brecwast a bydd yn marchnata'r sector pysgota yn weithredol trwy gyfrwng 'profiadau', gweithdai a digwyddiadau i annog mwy o fondiau cymdeithasol ac economaidd gyda'r sector. Bydd hyn yn cysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn SO13.

Sut mae’r SDLl yn alinio â nodau ac amcanion CLLD o fewn EMFF

Mae asgwrn cefn yr amcanion penodol yn yr SDLl hwn yn ddull CLLD neu ddull LEADER. O dan CLLD, mae pobl leol yn cymryd yr awenau i ffurfio partneriaeth leol sy'n dylunio ac yn gweithredu strategaeth ddatblygu integredig a gynlluniwyd i adeiladu ar gryfderau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd neu 'asedau' y gymuned yn hytrach na gwneud iawn am ei phroblemau.

Gwneir hyn nid yn unig yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wrth greu'r FLAG ei hun, ond hefyd drwy'r cyfnod animeiddio, datblygu prosiect a chymeradwyo. Roedd yr ymarfer ymgynghori yn cwmpasu ymatebion ardal a sector ac adnabod trwy ddadansoddiad SWOT o'r angen a'r cyfleoedd y dylai'r SDLl ymdrin â hwy. Mae'r trosi i amcanion penodol yn dangos yn glir bod ymgynghori a chyfranogiad, ym mhob achos, hyd yn oed ar gamau cynnar y rhaglen, yn hanfodol i'r FLDS gyflawni ei nodau a'i amcanion yn effeithiol.

Fel y nodwyd yn y tabl rhesymeg ymyrryd, mae pob SO yn dechrau gydag ymgysylltu, rhwydweithio, comisiynu data sylfaenol, y cyfan yn cynnwys y gymuned naill ai'n ddaearyddol neu o fewn sector

penodol. O dan gyfarwyddyd FLAG ac is-grwpiau FLAG, bydd camau i ddatblygu atebion i gyfleoedd ac anghenion yn cael eu datblygu, gyda galwadau agored am ffocysu ar brosiectau o'r gymuned.

Er enghraifft, mae SO15 yn canolbwyntio ar y gymuned yn creu cysylltiad dyfnach â'r sector pysgota a datblygu prosiectau i gefnogi'r cysylltiad hwn, sy'n arbennig o berthnasol i borthladdoedd llai gydag arwyddocâd diwylliannol cryf i ardal, ond nad ydynt bellach yn ddylanwad economaidd sylweddol. Gellir gweld hyn yn y gwaith a wnaed gan gymdeithas Quay Watermans yn Sir y Fflint.

Sut y bydd y FLAG yn sicrhau cydweddoldeb yn hytrach na dyblygu gyda strwythurau a mentrau eraill yn yr ardal.

Yn gyntaf, cyfansoddiad y FLAG yw cynrychiolaeth o'r strwythurau cefnogi yn yr ardal ac o fewn y sectorau Pysgodfeydd a Dyframaethu, Twristiaeth, grwpiau cyhoeddus ac asiantaethau'r Llywodraeth (Seafish). Felly, bydd strategaethau ar sail leol a rhanbarthol yn cael eu cynrychioli.

Cynrychiolir y cymdeithasau pysgota lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod y diwydiant yn cael ei gynrychioli, ac i sicrhau integreiddio'r prosiect a ddygir i'r FLAG neu a ddatblygir ganddo. Er enghraifft, mae'r WFA yn hyrwyddo'r defnydd o bysgotwyr lleol, eu gwybodaeth a'u hadnoddau i wahanol ddatblygiadau o fewn ynni adnewyddadwy ar y môr a chasglu data ar gyfer sefydliadau ymchwil. Bydd prosiect FLAG o arallgyfeirio ac ail-sgilio yn ategu'r hyrwyddo hwn ac yn cynorthwyo gyda chynlluniau peilot i annog cyfranogwyr a datblygu'r sylfaen sgiliau.

Er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu dyblygu a'u hintegreiddio â'r strategaethau a'r mentrau ym mhob sir, boed hynny o dan gronfeydd ESF neu EARDF, mae aelodaeth FLAG yn cynnwys cynrychiolwyr o'r WLB a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, yn ogystal â bod corff ARWEINIOL y FLAG yn gorff gweinyddol ar gyfer rhaglen LEADER Cynllun Datblygu Gwledig yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn rhan o raglen y Rhwydwaith Gwledig a grŵp CLLD y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd strategaethau amgylcheddol a strategaethau deddfwriaeth hefyd yn cael eu cynrychioli drwy'r swyddog ACA lleol a chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd y FLAG yn sicrhau y bydd amcanion sydd â chyswllt twristiaeth yn ategu ac yn gwella cynlluniau rheoli cyrchfannau mewn ardaloedd lleol. Er enghraifft, mae cynllun rheoli cyrchfannau CSYM yn cynnwys datblygu cysylltiadau â'r ardaloedd arfordirol. Bydd yn ofynnol i fentrau neu brosiectau o'r fath lynu wrth y strategaeth.

Bydd integreiddio pellach yn hytrach na dyblygu yn rhan annatod o'r broses asesu ym mhob cam o ddatblygiad y prosiect a cheisir chwilio am brosiectau sy'n canolbwyntio ar gydweddoldeb strategaeth, yn enwedig mewn perthynas â datblygu a chynaliadwyedd pellach prosiectau yn y dyfodol.

Cydlyniad a chysondeb rhwng strategaethau lleol a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol ac isranbarthol presennol

<u>Cydlyniad Lleol</u>

Gall cyflenwi rhaglenni ar draws 5 sir ddod â llawer o heriau ymarferol e.e. gall amseroedd teithio o un pen yr ardal arfordirol i'r nesaf fod yn sylweddol. Fodd bynnag, mae cynllunio gofalus ac ymwybyddiaeth y dylai pob cymuned gael cyfle teg i gyfranogi wedi sicrhau llwyddiant yn y gorffennol.

Yng ngoleuni gofynion ac ethos EMFF 2014-2020, bydd rhaglen CLLD Pysgodfeydd Gogledd Cymru yn cael ei chyflwyno gan un corff gweinyddol (Menter Môn), gan ganiatáu golwg gyfannol a chydgysylltiedig o arfordir Gogledd Cymru heb ei gyfyngu gan ffiniau cynghorau. Bydd un sefydliad

cyflenwi sengl yn gwella cydlyniad ac yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau a chymunedau. Ceir rhagor o fanylion am y mecanwaith cyflawni yn y ddogfen hon.

Rhagwelir mai yn Ynys Môn y bydd y tîm cyflenwi yn cael ei leoli'n bennaf, ond mae ganddo is-swyddfeydd yn y Rhyl a Phorthmadog. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd rheolwr y prosiect a swyddog y prosiect yn teithio yn ôl yr angen i sicrhau cynhwysiant yr holl gymunedau arfordirol a nodwyd.

Caiff CLLD yr effaith fwyaf lle mae cymunedau, boed wedi'u diffinio gan ddaearyddiaeth neu ddiddordeb, yn cydweithio er mwyn ymateb i her neu fygythiad cyffredin. Fodd bynnag, mae gan y cymunedau arfordirol gyswllt unigryw, o fewn y siroedd ac o fewn daearyddiaeth eu harfordir, o safbwynt yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r cyfleoedd y maent yn ceisio manteisio arnynt.

Bydd strwythur strategol newydd sydd i'w nodi yn y ddogfen hon hefyd yn sicrhau cydlyniad. Bydd y GGLl Pysgodfeydd Gogledd Cymru newydd yn eistedd o fewn strwythur Rhanbarthol tra'n cynnal yr annibyniaeth sy'n bwysig i gyflwyno gweithgareddau arloesol. Amlinella'r diagram isod y berthynas rhwng y gwahanol grwpiau a sefydliadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Cydlyniad Traws Sirol

Mae gan Fenter Môn gyrhaeddiad rhanbarthol ac mae ganddi gysylltiad agos ag ystod o strategaethau rhanbarthol e.e. aelod o'r Ardal Fenter; cyflwynydd diweddar 'New Business Starts' yn cefnogi ac yn noddi prosiectau ERDF ac ESF ar draws pedair sir Gogledd Orllewin Cymru. Mae'n cyfathrebu'n rheolaidd â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan ymgysylltu â'i olwg strategol ar strategaeth Gogledd Cymru am y pum mlynedd nesaf. Buom yn ymwneud yn helaeth â datblygu ynni adnewyddadwy morol yng Ngogledd Cymru. Sefydlwyd yr SDLl i fod yn labordy arloesi sy'n gweithredu o dan yr hyn yr ydym yn disgwyl iddo fod yn brif ffrwd rhaglenni'r UE dros y blynyddoedd nesaf. Wrth weithredu amcanion CLLD EMFF, byddwn hefyd yn llwyr ymwybodol o Gynllun Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cymru. Gweler adran Integreiddio 1.2 ar gyfer cysondeb â pholisi Llywodraeth Cymru.

Disgrifiad o aliniad â mentrau eraill CLLD

Mae'r rhwydweithio a wnaed gan y corff ARWEINIOL y manylir arno yn adran 3.2 isod yn dangos sut mae'r corff FLAG a'r corff ARWEINIOL yn bwriadu sicrhau cyfathrebiad y prosiectau a datblygiad yr FLDS. Mae rhwydweithio â FLAGs eraill, boed yng Nghymru neu'r DU, yn fuddiol nid yn unig i rannu arfer gorau ond hefyd i nodi synergeddau posibl ar draws ffiniau sirol a chenedlaethol. Anogir staff FLAG i rwydweithio â grwpiau FLAG eraill yn rheolaidd. Yn ogystal, mae rhwydweithio gyda grwpiau GGLl eraill a chyrff ARWEINIOL yn rhan annatod o raglen y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae Menter Môn wedi sefydlu cysylltiadau gwaith cryf gyda'r corff ARWEINIOL ar gyfer Sir y Fflint a Sir Ddinbych (Cadwyn Clwyd) ac wedi gweithio gyda GGLl Conwy mewn cyfnodau CDG blaenorol.

Hefyd, mae Menter Môn yn rhan o grŵp llywio integreiddio ESI sy'n cynrychioli'r RDP a FLAG FLFF ac mae mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y FLAG yn gwbl ymwybodol o gyllid pellach posibl ar gyfer prif ffrydio neu gyflawni prosiectau sydd wedi profi y gallant gyflenwi strategaethau a datblygu lleol neu genedlaethol.

Bydd prosiectau sydd angen cyllid ychwanegol yn cael eu cyfeirio at y strwythurau a'r gweithdrefnau ariannu perthnasol a bydd y FLAG yn barnu unrhyw gymorth pellach (staff neu ymyrraeth) fesul achos.

Integreiddio Strategaeth Leol a Chenedlaethol Penodol

Fel y soniwyd uchod, bydd y rhwydweithio helaeth a pharhaus yn helpu i sicrhau integreiddio â strategaethau lleol a chenedlaethol eraill.

Er enghraifft, mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru yn cynnwys tair strategaeth a fydd yn integreiddio â'r Strategaeth Datblygu Lleol. Dylid rheoli dyfroedd Cymru i sicrhau'r manteision amgylcheddol, economaidd a physgodfeydd gorau posibl. Gellid cyflawni hyn yn fwy effeithiol drwy atebion lleol i broblemau lleol a defnyddiodull sy'n seiliedig ar ecosystem. Yn amlwg, mae SO15 yn cefnogi pob cyfranogwr mewn cymuned arfordirol i ddatblygu prosiectau, a bydd yn cefnogi partneriaethau o'r gwaelod i fyny i ddatblygu.

Bydd integreiddio â Seafish a'i ffocws cenhadaeth a strategaeth i hyrwyddo defnydd, gwella enw da a llywio penderfyniadau yn gwella amcanion y FLAGS. Mae creu galw trwy hyrwyddo defnydd yn caniatáu cyfleoedd cyflogaeth pellach, yn enwedig o fewn y sector prosesu. Mae Strategaeth Bwyd Môr Cymru wedi gosod targedau hyd at 2025 y cytunwyd arnynt gyda diwydiant, e.e. cynyddu'r cynhyrchiad dyframaeth o 30% erbyn 2025 a chynyddu cyflogaeth 10%. Bydd integreiddio rhaglenni hyfforddi a chefnogi busnesau i wella sgiliau staff yn cynorthwyo gyda'r targedau diwydiant hyn.

ADRAN 2 – ARIANNOL A CHYDYMFFURFIO

2.1 Rheolaeth a Gweinyddiaeth

Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl y FLAG

Mae'r cyfansoddiad a'r cylch gorchwyl (a gynhwysir yn atodiad 1) yn amlinellu'r gynrychiolaeth y bydd ei hangen ar y FLAG. Yn gryno -

- Ni chaiff unrhyw un sector ddominyddu h.y. rhwng cyhoeddus/ preifat/ gwirfoddol, ond dylai'r sector pysgodfeydd gynrychioli rhwng 10-49% (sectorau a gynigir yn y tabl isod);
- Penodir Is-grwpiau i ganolbwyntio ar amcanion penodol er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau a chyflymu'r broses.
- Bydd o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn, ond gall aelodau FLAG gytuno p'un a oes angen cyfarfodydd pellach.
- Dewisir yr aelodau gan y Corff Gweinyddol a Grŵp Llywio'r FLDS i ddechrau, ac wedi hynny bydd yr aelodau etholedig FLAG yn cadarnhau unrhyw aelodaeth bellach. Yn y cyfarfod cychwynnol bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu cynnig a'u dewis, gan gymryd eu swydd am 12 mis, a'u hethol yn flynyddol.
- Mae gan y FLAG o leiaf 9 aelod ac uchafswm o 18
- Rhaid i 8 aelod fod yn bresennol mewn cyfarfod i gael cworwm h.y. ar gyfer gwneud penderfyniadau (yn dal i ddilyn nad oes un sector yn dominyddu)
- Mae gan y Cadeirydd y bleidlais fwrw mewn penderfyniadau.
- Dylid datgan gwrthdaro buddiannau drwy gydol y broses a bydd camau clir i sicrhau bod unrhyw aelod sydd â gwrthdaro buddiannau yn cael ei ddileu o'r broses gwneud penderfyniadau.
- Bydd y corff gweinyddol yn sicrhau bod gwybodaeth glir, gryno yn cael ei dosbarthu ar amlder a fformat cytunedig gydag aelodau FLAG ond bydd yn cynnwys diweddariadau chwarterol ar gymhwyso, datblygu a gweithgaredd prosiect. Bydd hyn yn cynnwys hwyluso a datblygu'r is-grwpiau a benodwyd.
- Sicrhau dulliau gwneud penderfyniadau anwahaniaethol a thryloyw gan gynnwys gweithdrefnau dethol a meini prawf gwrthrychol ar gyfer dewis gweithrediadau, sy'n osgoi gwrthdaro buddiannau.
- Gan fod y corff gweinyddol yn gwmni cyfyngedig annibynnol, ni all unrhyw un o fwrdd cyfarwyddwyr y corff gweinyddol gael rôl ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r FLAG.
- Bydd y Corff Gweinyddol yn sicrhau bod holl ofynion Rhaglen yr EMFF wedi'u bodloni erbyn y dyddiad gorffen gofynnol yn unol â strategaeth ymadael Llywodraeth Cymru.

Manylion yr aelodau FLAG arfaethedig gan gynnwys cynrychiolaeth pysgodfeydd/dyframaeth a sectorau a gynrychiolir (cyhoeddus, preifat, trydydd sector)

Fel y crybwyllwyd, y nifer mwyaf o aelodau FLAG yn y lle cyntaf fydd 18, fodd bynnag gallai hyn newid wrth i'r SDLl ddatblygu a bod angen aelodau mwy gwybodus/ arbenigol. Rhaid ceisio cydbwysedd o ran sectorau, grwpiau targed, gwybodaeth thematig a daearyddiaeth. Mae'n bosibl na fydd rhai ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i ddod yn aelodau o'r grŵp os oes gormod o gynrychiolaeth o unrhyw sector unigol, grŵp targed ayb.

Mae'r tabl canlynol yn dynodi cynrychiolaeth arfaethedig aelodau/sector FLAG Gogledd Cymru:

Sector a gynrychiolir	Rhesymeg dros aelodaeth	Nifer
Lletygarwch a Manwerthu	O leiaf 1 perchennog bwyty / manwerthu sydd wedi bod yn Llysgenhadon bwyd môr	1
Y Sector Prosesu	Lleiafswm o 1 o'r sector prosesu pysgod môr / pysgod cregyn	1
Sector Garddwriaeth	Cynrychiolydd y sectorau Pysgod Cregyn a Dyframaethu	1
Seafish	Cynrychiolydd a chyfryngwr y corff cynghori cenedlaethol	1
Aelod WLB	Yn cynrychioli Cynghorau Sir Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint - Rhanddeiliad Corff Cyhoeddus	1
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Corff Ymgynghorol Rhanbarthol	1
Pysgodfeydd	Aelod o Grŵp Pysgodfeydd y Glannau	1
Croeso Cymru	Cynrychiolydd y sector twristiaeth	1
Pysgodfeydd	Cwmni Pysgota Gogledd Cymru Cyfyngedig	1
Pysgodfeydd	Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn	1
Pysgodfeydd	Cymdeithas Pysgota Llŷn	1
Pysgodfeydd	Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Conwy	1
Pysgodfeydd	WFA	1
Coleg Llandrillo Menai	Y sector academaidd ac addysgol	1
Cadwraeth a chynaliadwyedd amgylcheddol	Swyddog / Swyddogion ACA Rhanbarthol	1
Ymchwil ac Addysg	Prifysgol Bangor	1
Sector Ynni Adnewyddadwy	Cynrychiolydd o Morlais a phrosiect adnewyddadwy arall	1
I'w gadarnhau	Sefydliadau'r Trydydd Sector i'w cadarnhau	1

Cydlynir y broses recriwtio gan Menter Môn fel y Corff Gweinyddol. Wedi gweithredu fel GGLl ers bron i 20 mlynedd eu hunain ac yn ddiweddar wedi sefydlu a gweinyddu FLAG Gwynedd a Môn, maent yn gyfarwydd â'r broses a pheryglon posibl. Mae dull agored a thryloyw yn hanfodol i sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan, p'un a ydynt yn dod yn aelodau ai peidio, yn gallu deall y broses a gwerthfawrogi pam y gwneir penderfyniadau.

Manylion y Corff Gweinyddol

Menter Môn oedd y Corff Gweinyddol enwebedig ar gyfer FLAG Ynys Môn a Gwynedd ac mae wedi'i enwebu i barhau â'r swyddogaeth ar gyfer FLAG Gogledd Cymru.

Dangosodd Menter Môn bod ganddo'r capasiti a'r gallu i weithredu fel Corff Gweinyddol ar gyfer FLAG Gogledd Cymru. Mae'r gweithgareddau a'r cyflawniadau canlynol yn cefnogi'r honiad hwn.

- Mae Menter Môn wedi cyflwyno LEADER ar Ynys Môn ers 1995 ac mae'n gyfarwydd iawn â'r rhaglen a'r fethodoleg.
- Menter Môn oedd y Corff Arweiniol ar gyfer Cyd-brosiect FLAG Ynys Môn a Gwynedd (Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd)
- Cydlynodd Menter Môn Brosiect Tir Comin Glastir yng Ngwynedd, Ynys Môn, Conwy a Cheredigion.
- Mae Menter Môn wedi cyflwyno amrywiaeth o brosiectau a ariennir gan yr UE mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfenter a Shaping the Future (y ddau wedi'u hariannu gan ERDF).
- Mae Menter Môn, trwy ei braich fasnachol, Annog Cyf, wedi cyflwyno sawl prosiect CDG mawr (Echel 3 a 4) yng Ngwynedd a Chonwy dros y 6 mlynedd diwethaf.
- Mae Menter Môn wedi datblygu tîm profiadol o swyddogion yn eu swyddfa ym Môn a Phorthmadog.
- Mae Menter Môn wedi datblygu perthynas gynhyrchiol gydag Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Conwy a Gwynedd ar sail eu gallu i gyflenwi.

Oherwydd y profiad helaeth hwn, mae gan Menter Môn y gallu i redeg rhaglenni datblygu lleol, yn ogystal â'r profiad o weinyddu arian cyhoeddus yn ariannol ac animeiddio yn y gymuned leol.

Mae nifer y staff sydd eu hangen i redeg ac animeiddio'r FLDS yn gymesur â graddfa a chymhlethdod yr ardal a'r strategaeth. Bydd hyn yn cynnwys Rheolwr Prosiect/ Animeiddiwr Craidd canolog, gyda gweinyddiaeth ariannol a gweithdrefnol yn cael ei chefnogi drwy weinyddiaeth ganolog y Corff Gweinyddol.

Staffio arfaethedig FLAG a'r Corff Gweinyddol



Rheolaeth Weinyddol ac Ariannol: gweithdrefnau gweithio a gwneud penderfyniadau a chydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau'r Comisiwn

Bydd yr holl weithrediadau a wneir gan FLAG yn cydymffurfio â Nodiadau Cyfarwyddyd 1 cyhoeddiad un Rhaglen Ddatblygu Rhaglen EMFF Cymru 2014-2020.
Mae Atodiad 1 Cyfarwyddyd Strategaeth Datblygu Lleol FLAG 2014-2020 yn nodi prif swyddogaethau'r FLAG (a fydd yn cael eu mabwysiadu'n llawn) fel a ganlyn:

- Meithrin gallu pobl leol i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau
- Llunio gweithdrefn ddewis a meini prawf gwrthrychol anwahaniaethol a thryloyw ar gyfer dewis gweithrediadau, sy'n osgoi gwrthdaro buddiannau,
- sicrhau bod partneriaid, nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus, yn bwrw o leiaf 51% o'r pleidleisiau mewn penderfyniadau dethol, ac yn caniatáu dewis drwy weithdrefn ysgrifenedig,
- Yn sicrhau cydlyniad â'r FLDS wrth ddewis gweithrediadau, trwy flaenoriaethu'r gweithrediadau hynny yn ôl eu cyfraniad at gyflawni amcanion a strategaethau'r FLDS,
- Paratoi a chyhoeddi galwadau am gynigion neu weithdrefn barhaus ar gyfer cyflwyno prosiectau, gan gynnwys diffinio meini prawf dethol,
- Derbyn ac asesu ceisiadau am gymorth,
- Dewis gweithrediadau a phennu swm y gefnogaeth a chyflwyno'r cynigion i Lywodraeth Cymru (drwy'r corff gweinyddol) ar gyfer dilysu technegol terfynol cymhwyster a chymeradwyaeth.

Recriwtio Aelodaeth FLAG

Dechreuodd y broses recriwtio ar gyfer aelodau'r FLAG newydd gydag ymarfer ymgynghori SDLl. Cafodd pawb a gymerodd ran yn y broses wybodaeth gefndir am y rhaglen a chawsant wahoddiad i gofrestru diddordeb mewn dod yn aelodau FLAG. Bydd y broses o greu'r FLAG newydd yn dechrau o ddifrif ym mis Awst 2016 gyda'r bwriad o gynnal y cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 2016. Bydd y broses yn cynnwys y camau canlynol:

- Cyhoeddi cyfansoddiad drafft a chylch gorchwyl
- Creu ffurflen gais a “disgrifiad swydd” i ddod yn aelod FLAG
- Creu meini prawf dethol a ddefnyddir i ddewis aelodau (cynhwysir y manylion yn y cylch gorchwyl)
- Cynnal ymgyrch recriwtio gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol, cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau yn gyffredinol
- Menter Môn i hwyluso proses ddethol gyda chynrychiolaeth gan WFA, NWFA, LLPFA, LFA a’r IFG.
- Hysbysu ymgeiswyr o’r penderfyniad
- Trefnu cyfarfod rhagarweiniol a fydd yn cyflwyno CLLD, rôl amlinellol FLAG a phenodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd (Rhagfyr 2016)
- Trefnu cyfarfod gweithredol cyntaf y FLAG (Rhagfyr 2016)

Noder bod 10 unigolyn wedi mynegi 'IE' yn ein holiadur ymgynghori ar-lein pan ofynnwyd iddynt a hoffent fod yn rhan o ddatblygu neu weithredu FLDS Gogledd Cymru, a chysylltir â'r unigolion hyn pan fydd gwahoddiad FLAG yn cael ei ddosbarthu.
Elfen hynod bwysig o aelodaeth FLAG yw ei hyblygrwydd. Gan fod yr FLDS yn ddogfen 'fyw', bydd yr aelodaeth yn tyfu ac yn newid wrth i newidiadau ddigwydd yn ystod cyfnod y rhaglen.

Bydd y FLAG yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ystod cyfarfod cyntaf FLAG, fel yr amlinellwyd yn y Cylch Gorchwyl. Bydd darpariaeth i sefydlu is-grwpiau hefyd yn ei lle i sicrhau datblygiad cyflym o ran cyflenwi FLDS.

Rolau a chyfrifoldebau cydweithredol.

Mae angen diffinio rolau a chyfrifoldebau grŵp FLAG Gogledd Cymru a'r corff Gweinyddol, Menter Môn, yn glir gan fod gan bob sefydliad swyddogaeth a lefel atebolrwydd penodol. Amlinellir y rhain isod:

Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd : Mae gan y GGLl annibyniaeth gyflawn o ran paratoi'r Strategaeth Datblygu Lleol a gweithgareddau LEADER. Fe'u cefnogir gan y Corff Gweinyddol penodedig (Menter Môn). Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y FLAG yn atebol i Menter Môn.

Corff Gweinyddol: Bydd Menter Môn yn darparu gwasanaeth a fydd yn galluogi i bob agwedd ar yr FLDS gael eu cyflenwi o fewn rhanbarth yr arfordir. Bydd hyn yn cynnwys cyllid a gweinyddu, animeiddio a chyflwyno prosiectau. Bydd yn cymryd rheolaeth gyllidebol gyffredinol ar gyfer y gweithgareddau ac felly bydd angen iddo weithredu'n ddarbodus a chyda llinellau cyfrifoldeb clir.

Rheolaeth Weinyddol ac Ariannol: Manylion gweithdrefnau a phrosesau cydymffurfio sy'n dangos gwahanu dyletswyddau, systemau adrodd a'r gallu i gynnal llwybrau archwilio llawn ar gyfer gwariant a dangosyddion.

Mae'r canlynol yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r Corff Gweinyddol a'r FLAG o ran darparu LEADER, ac mae'r siart llif canlynol yn amlinellu sut y bydd gweithgaredd LEADER yn cael ei ddatblygu, ei gymeradwyo a'i gyflenwi gan y Corff Gweinyddol:

FLAG – Rôl a chyfrifoldeb

- Paratoi Strategaeth Datblygu Lleol Pysgodfeydd gyda chefnogaeth y Tîm FLAG a'r Sector Pysgota presennol
- Paratoi cais LEADER yr EMFF (y ddogfen hon) gyda chefnogaeth y Tîm FLAG presennol
- Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd
- Ystyried a chymeradwyo/ gwrthod ceisiadau am weithgaredd LEADER a gyflwynwyd gan Menter Môn ar ran cymunedau arfordirol
- Monitro cyflwyno'r gweithgareddau yn erbyn allbynnau a phroffil gwariant y cytunwyd arnynt gyda chefnogaeth y Swyddog Prosiect.
- Darparu cyfeiriad strategol cyffredinol
- Darparu cyd-destun rhanbarthol a sectoraidd a sicrhau cydweddiad strategol â gweithgaredd LEADER.

Corff Gweinyddol (Menter Môn) - Rôl a chyfrifoldeb

- Hwyluso gwaith y FLAG e.e. trefnu cyfarfodydd, paratoi adroddiadau, darparu arweiniad a nodi gofynion hyfforddi.
- Cefnogi caffael a/neu gyflenwi'r gweithgaredd LEADER.
- Darparu'r holl wybodaeth ariannol berthnasol i'r Swyddog Cydymffurfio e.e. proffil gwario, gwybodaeth ar gyfer PAF
- Paratoi Adroddiad Chwarterol i'w gytuno gan y FLAG a'i gyflwyno i LlC.

- Sefydlu a gweinyddu systemau a gweithdrefnau ariannol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a'r UE
- Sefydlu a gweinyddu system casglu allbwn safonol
- Cyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer y Strategaeth Datblygu Lleol a cheisiadau e.e. polisïau, ffurflenni cais templed.
- Derbyn llythyrau yn cadarnhau arian cyfatebol y prosiect
- Paratoi a chyhoeddi contractau gyda phartneriaid cyflenwi trydydd parti gyda chytundeb llawn y FLAG.
- Cyflwyno hawliadau chwarterol i LlC
- Paratoi a chyflwyno PAFs i LlC
- Ymateb i bob ymholiad gan LlC gyda mewnbwn gan y FLAG
- Paratoi a chyflwyno diweddariadau ariannol ym mhob cyfarfod FLAG
- Trefnu cyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Cydymffurfio i drafod cynnydd a nodi meysydd i'w gwella.
- Darparu cymorth llif arian i hwyluso cyflenwi'r FLDS
- Penodi staff cymwys a phrofiadol i'w lleoli yn y ddwy Sir (Porthmadog a Llangefni)
	SO8	Develop more employment and business opportunities for local people through the renewable energy	Innovative diversification into the Blue Growth econo especially advocation of a central resource control mo may become a larger scale flagship
Enhancing and capitalising on the environmental asets of the fisheries and aquaculture areas, including operations to mitigate climate change	SO9	Facilitating research and innovation to support identified sectors of the supply chain with a view to improved sustainability and consistency	Innovative and novel ways to assess the status of comm fish and shellfish stocks and determination of their lev exploitation - development of new products/proces
	SO10	To identify opportunities to promote the clean green coast of North Wales through facilitation of sustainable environmental practices	Innovative promotion campaigns to highlight the low ca footprint of local Seafood - highlighting new ways t emphasis the buy local/support locals campaign in provenance
Promoting social well-being and cultural heritage in fisheries and aquaculture areas, including fisheries and maritime cultural heritage	SO11	Secure further local economic value for local operators from the North Wales Coastal Path and National Iconic sites	Innovative events diarised for walkers to experienc fishermen at work (on shore activities) - bringing diffe sectors and actors together to look at opportunitie differently
	SO12	To secure the continued coastal community support and connection to the fisheries sector	Innovative engagement through workshops and experinc primary schools - delivering an engaging innovativ educational project that may become a larger flagsh sponsored by the private sector
	SO13	To ensure the preservation of the culturally significant small ports and its economic value to the coastal community	Innovative promotion and funding ideas to assist th community with their infrastructure/development for s cultural ports
Strengthening the role of fisheries communities in local development and the governance of local fisheries resources and maritime activities	SO14	To provide advice, support and facilities to Local communities	Innovative local management measure and innovative to incentivise voluntary codes of practice - focusing different ways to promote campaigns
	SO15	To provide support and facilitate 'local' awareness projects within coastal communities	Innovative ways to engage Locals to Local - multiplier e expected from initial actions

Ymyriadau a chyfrifoldebau
Disgrifir ystod o ymyriadau dangosol yn y Tabl Rhesymeg Ymyrraeth. Cyfrifoldeb y swyddog prosiect fydd cyflenwi'r gwaith hwn o ddydd i ddydd dan arweiniad is-grwpiau'r Rheolwr Prosiect/ FLSG. Byddant yn gweithio'n agos gyda'r Grwpiau Arloesi i fwrw ymlaen â'r datblygiadau newydd hyd at gwblhau a thu hwnt i ddilyniant pellach lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.
Gellir crynhoi'r mathau o ymgymeriadau a fydd yn enwi'r camau a gynhwysir yn y Tabl Rhesymeg Ymyrraeth o dan y penawdau canlynol.
Ymchwil a Chyfiawnhad dros Gwrs Gweithredu
Ymchwil cymunedol a desg, cynhyrchu astudiaethau dichonoldeb, cynhyrchu modelau busnes i gefnogi gwneud penderfyniadau ar weithredu. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd staff Menter Môn yn ymgymryd â'r gwaith hwn eu hunain mewn cydweithrediad ag aelodau'r grŵp arloesi perthnasol. Efallai y bydd achlysuron e.e. yn Amcan 1 lle mae ymchwil yn cael ei wneud i'r sector prosesu, lle gellir defnyddio gwybodaeth pysgodfeydd lleol i ganolbwyntio ar sut i gasglu'r data a phryd. Lle mae'r ardal waith yn arbenigol, neu lle mae angen cymorth ychwanegol, caiff gwaith ei gaffael trwy dendr agored yn unol â'r rheoliadau.

Gweithredu Ymrwymiadau
Pan gytunwyd ar gamau gweithredu ymyrraeth, bydd y Swyddog Prosiect yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith, eto gyda chymorth priodol gan randdeiliaid y grŵp arloesi .

Pwy fydd yn ei wneud a Sut y caiff ei wneud ?
Bydd gweithrediadau nad oes angen cerbyd arbenigol arnynt yn cael eu cyflenwi gan staff Menter Môn ar ran y FLAG a'r Grŵp Arloesi e.e. sefydlu Clwb Entrepreneuriaeth ar gyfer pobl ifanc o fewn SO3/ 4.
Pan fydd ymgymeriadau angen cerbyd penodol i'w cyflenwi, dilynir proses gomisiynu/ caffael e.e. yn Amcan 1 yr EMFF yn SO6 lle mae ymchwil wedi cynhyrchu model diffiniol ac yn gofyn am brototeip sy'n costio mwy na £5,000, cynhyrchir briff comisiynu (yn debyg i friff tendr caffael) y gall busnesau presennol yn y rhanbarth sydd â sgiliau priodol gystadlu amdano.
Felly, mae gan gomisiynu yr un ystyr â chaffael heblaw ei fod yn berthnasol i wireddu cynnyrch neu broses newydd, megis adeiladu ap.
Bydd rhai gweithrediadau yn ei gwneud yn ofynnol darparu cymorth anuniongyrchol i fusnesau e.e. efallai y bydd angen cynhyrchu cyfryngau gwybodaeth, naill ai’n ddigidol neu mewn print, i gynyddu'r defnydd o'r pecyn ymdeimlad o le ymhlith gweithredwyr twristiaeth yn rhanbarth FLAG. Mewn achosion o'r fath, bydd y corff arweiniol yn caffael y deunyddiau ac yn caniatáu i'r busnesau eu defnyddio fel gweithgareddau peilot.

Diweddglo
Mae'r pwyslais pennaf yn y rhaglen CLLD/ LEADER hon ar wariant refeniw sy'n dod â'i heriau ei hun o ran cadw ffocws a dilyn llwybr hanfodol i lwyddiant. Rôl y Corff Gweinyddol yw sicrhau hyn, o dan fonitro, llywio a dilysu'r FLAG.

3.5 Mentrau cyfathrebu a chyhoeddusrwydd

Cynllun Cyfathrebu

Dylai LEADER ddarparu labordy i dreialu dulliau newydd ac felly mae'n hanfodol rhannu canlyniadau ar lefel leol, rhanbarthol ac Ewropeaidd. Felly mae'n bwysig integreiddio cynllun cyfathrebu effeithiol ym mhob elfen o'r prosiect; o'r cyfnod ymgynghori cychwynnol hyd at ei gwblhau yn 2021.

Mae'r tri cham i'r cynllun cyfathrebu fel a ganlyn:

Cam
Codi ymwybyddiaeth
Ymgysylltiad parhaus
Gwerthuso ac adborth

Er budd y cynllun cyfathrebu rydym hefyd wedi nodi dau fath o gynulleidfa sef :

Math o Gynulleidfa
Cyffredinol
Partïon â diddordeb

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyfathrebu â'r gwahanol fathau o gynulleidfaoedd yn ystod pob cyfnod o gyflenwi rhaglen.

Cam	**Cynulleidfa Gyffredinol**	**Partïon â Diddordeb**
Codi Ymwybyddiaeth	Hysbysu cynifer o unigolion a grwpiau o LEADER a'i egwyddorion. Bydd y neges yn syml, gan sicrhau bod buddiolwyr posibl yn ystyried ei bod yn berthnasol. Defnyddir enghreifftiau o arfer da i gefnogi negeseuon allweddol. Dulliau fel a ganlyn: • Mae **ymgynghoriad SDLl** yn gam cyntaf pwysig wrth ymgysylltu â grwpiau ac unigolion. Mae cyfarfodydd a gweithdai grŵp yn rhoi cyfle i hyrwyddo LEADER a recriwtio cyfranogwyr ar gyfer cymunedau arloesi. • Bydd **Sioe Deithiol FLAG Gogledd Cymru** (trefi a phentrefi) ar gyfer dechrau 2017 yn rhagweithiol. Mae'r FLDS cymeradwy yn darparu trafodaeth well. Mae'r broses yn gofyn am 2/3 mis o ymgysylltiad cymunedol dwys.	Mae gan rai unigolion, grwpiau a sefydliadau ddiddordeb mewn amcanion penodol. Mae cyfle i deilwra'r dull cychwynnol i sicrhau bod gwybodaeth yn berthnasol. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys y canlynol: • **Yr ymarfer ymgynghoriad SDLl** i fod yn gyfle i drafod y rhaglen yn gyffredinol, ond hefyd yn gyfle i holi rhai nodau lle bo hynny'n berthnasol ar gyfer datblygiad pellach unwaith y bydd yr FLDS wedi'i gymeradwyo • **Sioe Deithiol FLAG Gogledd Cymru** (Cymunedau Diddordeb/ Arloesi) yn rhedeg ochr yn ochr â'r Sioe Deithiol mewn trefi a

	• **Cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol** i gyfleu negeseuon allweddol ynglŷn â LEADER, wedi'u cryfhau unwaith y bydd gweithgarwch prosiect pendant. Mae profiad yn ein hysbysu bod cyfeirio at weithgarwch a phobl dan sylw yn darparu mwy o gysylltiad PR. • **Gwybodaeth gyffredinol** (e.e. taflenni) trwy rwydweithiau sefydledig a gwasanaethau cymorth e.e. Busnes Cymru a darpariaethau cyngor busnes eraill .	phentrefi. Yma mae negeseuon wedi'u teilwra i ganolbwyntio ar themâu sy'n berthnasol i gymuned o ddiddordeb.	
Ymgysylltu parhaus	Wrth ennill momentwm, mae'n bwysig bod cynnydd cyffredinol LEADER yng Ngogledd Cymru yn cael ei gylchu. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys: - • Mae **e-lythyr ddwywaith y flwyddyn** yn darparu trosolwg ac astudiaethau ciplun, wedi'u dosbarthu'n eang trwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol. Gellir cynhyrchu copi print hefyd. • Mae **Cyfryngau Cymdeithasol** yn chwarae rôl gynyddol bwysig wrth ymgysylltu ar lefel gymunedol. Rydym yn gwneud defnydd llawn o'r cyfrwng hwn i gynnal proffil gweithgareddau LEADER a datblygu deialog weithredol gyda phrosiectau drwy Twitter, Facebook ayb. • Mae **gwefan FLAG** yn darparu hyb ar gyfer gwybodaeth sy'n cynnwys dolenni i'r e-gylchlythyr, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag unrhyw astudiaethau achos perthnasol. • Mae'r **cyfryngau cyffredinol** yn parhau i ddarparu allfa ar gyfer straeon da, ond mae'n rhaid defnyddio hyn yn ddoeth os ystyrir bod gweithgaredd yn esiampl dda. Rhennir pob datganiad i'r wasg â thîm cyfathrebu LIC.	Y gynulleidfa bwysicaf o ran LEADER yw'r partïon â diddordeb, boed yn lleol, yn rhanbarthol neu'n Ewropeaidd. Mae arnynt angen gwybodaeth am y prosiect, y canlyniadau a'r potensial o allu atgynhyrchu. Mae darparu gwybodaeth derfynol yn ddefnyddiol, ond mynd â nhw ar y daith ddatblygu sydd fwyaf gwerthfawr. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys: • Trefnir **ymweliadau â phrosiectau** lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn ddefnyddiol i alluogi partïon â diddordeb i ddysgu am brosiectau a chynnydd a wnaed rhwng camau. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cynlluniau prosiect a'u trefnu ar y cyd â swyddogion y prosiect. • Caiff **cyfweliadau fideo diweddaru prosiectau** eu cofnodi ar gyfnodau penodol gydag arweinwyr prosiect. Mae'r rhain yn fideos math “ffôn symudol” cymharol fyr sy'n ceisio dal dilyniant y prosiect o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r canlyniad ar gael ar sianel YouTube FLAG.	

	• **Ymgysylltiad cyffredinol parhaus** naill ai mewn digwyddiadau neu yn y swyddfa yn Llangefni neu Borthmadog. Y nod yw trafod y rhaglen yn gyffredinol a nodi cyfleoedd newydd.	• Cylchir **Diweddariadau Prosiectau** ar gyfnodau a bennwyd ymlaen llaw i bartïon â diddordeb cofrestredig. Mae'r rhain yn mynd y tu draw i'r diweddariadau a ddarperir fel rhan o'r adroddiadau chwarterol ac yn cynnig gwell dealltwriaeth dechnegol.
Gwerthuso ac Adborth	Mae rhaglen FLAG yn ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â miloedd o unigolion dros 5 mlynedd, gan godi ymwybyddiaeth a disgwyliadau, gobeithio. Mae'n bwysig rhoi adborth ar gyflawniadau. Mae'r dulliau'n cynnwys: • **Llyfryn** yn manylu ar weithgaredd ac effaith, gan ganolbwyntio ar y newid a gyflenwyd. • **Sioe Deithiol Adborth** i gasglu'r hyn a ddysgwyd i'w gyflwyno i gymunedau ledled Gogledd Cymru • **Fideo byr yn** amlygu'r enghreifftiau gorau o Ogledd Cymru, yn debygol o fod yn fwy dymunol nag adroddiad.	Er mwyn dyblygu llwyddiant neu osgoi ailadrodd camgymeriadau, darperir gwybodaeth fanwl. Mae'n bwysig darparu adborth cywir a gonest gan ddefnyddio'r dulliau canlynol: • Bydd **gweithdai** yn rhoi cyfle i drafod llwyddiant y prosiectau. • **Trosolwg o ffilmiau** i gasglu'r "cipluniau" o ddilyniant a'u hategu â lluniau o'r prosiectau. • **Portffolios Prosiect** gyda thaflenni ffeithiau unigol. Gellir cyflwyno'r rhain mewn ffolder unigol, eu dosbarthu neu eu lawrlwytho.

Cydnabyddiaeth yr UE

Mae'r corff arweiniol yn gyfarwydd â rheolau cyhoeddusrwydd ar gyfer cronfeydd yr UE a bydd yn sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei chydnabod yn glir ar yr holl ddeunyddiau. Byddwn yn :

a. Sefydlu gweithdrefn "cymeradwyo" lle caiff unrhyw ddeunydd neu gyhoeddiad ei wirio cyn ei gymeradwyo, wedi'i lofnodi gan y swyddog cyflenwi ac uwch animeiddiwr.
b. Mae'n ofynnol i'r holl bartneriaid fynychu gweithdy cydymffurfio yn amlinellu cyfrifoldebau o ran cyllid, gweithgarwch cymwys a chyhoeddusrwydd.

Wythnos chwifio'r FLAG

Bydd gweithgareddau i ddathlu cefnogaeth yr UE yn seiliedig ar weithgaredd prosiect. Gallai'r gweithgareddau gynnwys y canlynol :

a. Creu arddangosfa UE yn Neuadd y Dref, Llangefni, a Phorthmadog.
b. Cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol e.e. annog partneriaid i # cronfeydd yr UE i godi ymwybyddiaeth o gyllid yr UE
c. Cynnal ymgyrch mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o sut mae arian yr UE yn cael ei wario'n lleol

Byddwn yn sicrhau bod y Rhaglen yn cydnabod yn glir yr EMFF a chefnogaeth Llywodraeth Cymru a byddwn yn cadw at y canllawiau cyhoeddusrwydd a'r cyfarwyddebau yn ôl y gofyn, gan gynnwys cyfranogiad llawn â gwybodaeth y prosiect fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a FARNET.

ADRAN 4 – RHEOLI PROSIECT

4.1 Rheolaeth a Gweinyddiaeth

Dylai'r Adran hon gynnwys y canlynol fel lleiafswm:

- Tystiolaeth o ymdrech i gydweithio ag ardaloedd FLAG eraill i gynhyrchu'r strwythur rheoli a gweinyddol mwyaf cost effeithiol ar gyfer yr ardal
- Disgrifiad o'r trefniadau llywodraethu a strwythur drafft, trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso, gan ddangos gallu'r FLAG i weithredu'r strategaeth
- Manylion nifer y staff y rhagwelir a fydd yn rhedeg ac yn animeiddio'r SDLl a strwythur y swyddogaethau animeiddio/ costau rhedeg
- Tystiolaeth o gynlluniau sgiliau a hyfforddiant ar gyfer staff y Corff Gweinyddol
- Manylion y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risgiau

Tystiolaeth o ymdrech i gydweithio ag ardaloedd FLAG eraill i gynhyrchu'r strwythur rheoli a gweinyddol mwyaf cost effeithiol ar gyfer yr ardal

Bydd FLAG Gogledd Cymru yn gwneud pob ymdrech i gydweithio ag ardaloedd FLAG eraill ond bydd hefyd yn cydweithio â rhaglenni eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop i leihau costau gweinyddol lle bynnag y bo modd. Bydd FLAG Gogledd Cymru yn elwa ar y systemau a'r prosesau sefydledig a ddatblygwyd ar gyfer rhaglen LEADER y Cynllun Datblygu Gwledig gan y Corff Gweinyddol. Bydd hyn yn cyflenwi'r canlynol:

- Cefnogaeth staff trwy’r rhwydwaith RDP presennol
- GGLl y Cynllun Datblygu Gwledig yn cysylltu'n rheolaidd â'r prosiect sy'n cael ei ddatblygu i sicrhau arbedion mewn animeiddio a chyflenwi trwy gydlynu digwyddiadau ayb mewn ardaloedd arfordirol sy'n gorgyffwrdd.
- Cydweithrediad posibl gyda FLAGS eraill yng Nghymru ar brosiectau blaenllaw ar raddfa fwy (bydd rhai elfennau o synergedd yn y Strategaeth Datblygu Lleol).
- Synergedd rheolaeth gyda GGLl Ynys Môn a Gwynedd a chysylltiad cryf â'r Corff Arweiniol yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint (Cadwyn Clwyd) sydd wedi gweithio mewn partneriaeth eisoes â (Rhaglen Datblygu Tiroedd Comin) a GGLl Conwy.

Yn ogystal, mae gan Menter Môn, sef y Corff Arweiniol ar gyfer Gogledd Cymru, gynsail a sefydlwyd yn 2012 gyda chreu un FLAG sengl (Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd) ar draws y ddwy sir. Mae'r sefydliad yn gyfarwydd â gweithredu elfennau Pysgodfeydd yr EMF yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ar ôl cyflenwi gweithgareddau CDG eraill ar draws y ddwy Sir am y

6 blynedd diwethaf. Bu hefyd yn cydweithio ar sawl Prosiect Cydweithredu ar draws y rhanbarth gan gynnwys Darganfod Ynys Môn a Gwynedd, Prentis a Mentergarwch yr Ifanc.

Disgrifir y strwythur staffio ar gyfer y Corff Arweiniol i Reoli, Darparu a Monitro LEADER yn Ynys Môn a Gwynedd yn y tabl canlynol

Staffio		
Tîm Cyllid a Gweinyddiaeth	**Rheolwr Cyllid a Gweinyddiaeth** Gyda chefndir mewn ymarfer cyfrifeg, mae'r Rheolwr Cyllid wedi gweithio gydag ystod o brosiectau LEADER, EFF, CDG eraill, prosiectau Amcan 5b, Amcan 1 a Chydgyfeirio ers dechrau Leader II ym 1996. **Rheolwr Canol Cyllid a Gweinyddiaeth** **4 Swyddog Cyllid** Roedd un uned FAM yn Llangefni yn cynnwys staff presennol Menter Môn sydd ag 20 mlynedd o brofiad ar y cyd o systemau cydymffurfio a gweithdrefnau desg sy'n ymwneud â rheoli cronfeydd yr UE. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r tîm hwn yn amrywio bob blwyddyn yn ôl natur y gwaith arall y maent yn ei wneud ym Menter Môn. At ddibenion yr SDLl hwn, mae wedi'i osod yn ddangosol ar 10% o gyfanswm eu costau cyflog yn seiliedig ar gynsail hanesyddol. Fodd bynnag, ac i'w wirio gan daflenni amser, bydd y swm gwirioneddol a dynnir o FLAG ar sail adennill costau yn seiliedig ar yr oriau a weithiwyd.	
Rheolwr Prosiect/ Cyd-animeiddiwr	Bydd y prosiect yn cael ei reoli a'i gyd-animeiddio gan unigolyn sydd wedi gweithio i LEADER am y 6 blynedd diwethaf, wedi cyflenwi rhaglen Echel 4 LEADER EFF flaenorol, wedi cyd-reoli Rhaglen Datblygu Tiroedd Comin, wedi rheoli rhaglen Echel 4 y Cynllun Datblygu Gwledig ar Ynys Môn a chydag ehangder a dyfnder profiad cyflenwi. Bydd y Rheolwr Prosiect yn chwarae rhan hanfodol ym mhob gweithgaredd animeiddio, wrth reoli'r rhaglenni y cytunwyd arnynt gyda'r aelodau FLAG a chysylltu â Llywodraeth Cymru i fodloni gofynion cytundebol y rhaglen. At ddibenion y Strategaeth Datblygu Lleol hon, gosodwyd hwn yn ddangosol ar 5 % o'u hamser, ac felly codir tâl am gyfanswm eu costau cyflog yn seiliedig ar gynsail hanesyddol. Mewn gwirionedd, ac y gellir ei wirio gyda thaflenni amser, bydd y swm gwirioneddol a dynnir o LEADER ar sail adennill costau yn seiliedig ar yr oriau a weithiwyd ar y rhaglen. Cytunir ar ddisgrifiad swydd manwl gydag aelodau'r FLAG.	
Staff Cyflenwi	**Swyddog Cyflenwi Prosiect** Wedi'i leoli yn Llangefni ond yn symudol, yn enwedig yn ystod y 12 mis cyntaf. Recriwtiwyd 1 aelod o staff y Prosiect ar gyfrifoldeb cyfwerth ag amser llawn ar gyfer datblygu prosiectau fesul cam yn ôl cyfarwyddyd aelodau'r FLAG a'r Rheolwr Prosiect. Cytunir ar ddisgrifiad swydd manwl gydag aelodau'r FLAG.	

STRWYTHUR A CHYFRIFIADAU COSTAU RHEDEG

Costau rhedeg sy'n gysylltiedig â staff CYLLID A GWEINYDDIAETH

Costau anuniongyrchol (canran cyfanswm y costau sy'n drethadwy i FLAG CLLD)
Bydd llety, ynni, gwasanaethau a chyfathrebu yn cael eu tynnu i lawr gan ddefnyddio cyfrifiadau seiliedig ar ofod i'w cytuno

Tîm Cyllid a Gweinyddiaeth ar y Cyd

Yn Llangefni.
Codir costau tîm Cyllid a Gweinyddiaeth yn ôl y cyfrifiad canlynol.

Newidyn	**symbol**	**mesur**
Cyfanswm Ardal y Gofod yn Llangefni	= **A**	(m2)
Cyfanswm y costau Cymwys Blynyddol llety, ynni, gwasanaethau a chyfathrebu ar gyfer yr Ardal Gyfan	= **X**	(£)
Cost uned yn Llangefni	**= (X÷A)**	(£/m2/flwyddyn)
Cost y gofod a ddefnyddir gan 6 aelod o staff (m2)	**=6(X÷A)**	(£/m2/flwyddyn)
Cost gofod ar gyfer 6 aelod o staff, sef 100% o staff cyfwerth ag amser llawn	**=6(X÷A) * 10%**	(£/m2/flwyddyn)

Nodwch y bydd y lluosydd % yn y rhes derfynol yn amrywiol ac yn wiriadwy trwy daflenni amser

Costau rhedeg sy'n gysylltiedig â STAFF CYFLENWI
Bydd yr holl Staff Cyflenwi yn gweithio 100% o'u hamser ar FLAG CLLD
Costau anuniongyrchol (y gellir eu codi ar FLAG CLLD)
Bydd llety, ynni, gwasanaethau a chyfathrebu sy'n ymwneud â staff cyflenwi yn cael eu tynnu i lawr gan ddefnyddio cyfrifiadau gofod fel a ganlyn:

Tîm cyflenwi
Yn Llangefni

Codir costau rhedeg staff cyflenwi yn ôl y cyfrifiad canlynol .

Newidyn	**symbol**	**mesur**
Cyfanswm Ardal y Gofod yn Llangefni	= **A**	(m2)
Cyfanswm y costau Cymwys Blynyddol llety, ynni, gwasanaethau a chyfathrebu ar gyfer yr Ardal Gyfan yn Llangefni	= **X**	(£)
Cyfanswm y costau Cymwys Blynyddol	= **Y**	(£)

llety, ynni, gwasanaethau a chyfathrebu ar gyfer yr Ardal Gyfan yn Llangefni		
Cost uned yn Llangefni	**= (X÷A)**	(£/m2/flwyddyn)
Cost y gofod a ddefnyddir fesul staff cyflenwi yn Llangefni (yn ddibynnol ar feddiant m2)	**=fesul(X÷A)**	(£/m2/flwyddyn)

Sgiliau a gallu aelodau FLAG.
Gweler adran 2 ar recriwtio aelodau FLAG, ar rolau a chyfrifoldebau'r FLAG, ar brosesau meini prawf dethol prosiectau ar gyfer defnyddio FLAG.

Cydnabyddir bod rhaid i aelodau FLAG gael y gallu i gyfrannu a chymryd rhan yn gynhyrchiol wrth gyflenwi'r Strategaeth Datblygu Lleol. I'r perwyl hwn bydd gweithdy yn cael ei ddarparu i aelodau FLAG a fydd yn canolbwyntio ar y sgiliau canlynol:

- Arloesi - ei swyddogaeth mewn economeg gymdeithasol
- CLLD - fel rhaglen ac fel proses
- Gweithio gyda chymunedau o ddiddordeb a grwpiau arloesi
- Beth yw gweithgaredd CLLD nodweddiadol?
- Sut i asesu prosiectau

Hyfforddiant staff
Atgyfnerthu sgiliau ac agweddau staff tuag at weithredu'r rhaglen yng Ngogledd Cymru. Mae'n bwysig nodi bod rheolwr y prosiect wedi gweithio i gyflenwi LEADER yn flaenorol a bydd ganddo ddealltwriaeth o fethodoleg a disgwyliadau. Bydd y swyddog cyflenwi prosiect newydd wedi'i hyfforddi'n llawn ym methodoleg LEADER

Teitl y Cwrs	**Nod y Cwrs**
Dealltwriaeth o LEADER	I holl aelodau'r FLAG, a staff nad ydynt wedi gweithio'n uniongyrchol ar brosiect LEADER o'r blaen.
Dealltwriaeth o rôl y FLAG	I holl aelodau'r FLAG, a staff nad ydynt wedi gweithio'n uniongyrchol ar brosiect LEADER o'r blaen.
Sefydlu aelodau FLAG	Unwaith y bydd aelodau FLAG yn eu lle, bydd rhaglen gynefino yn rhoi trosolwg cyffredinol fel y gall aelodau gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r FLAG cyn gynted â phosibl. Byddai hyn yn cynnwys elfennau fel Nodau ac amcanion y FLAG, y gynrychiolaeth ar y FLAG, cyflenwi animeiddio, proses dethol prosiectau ayb.
Deall ac asesu gweithgareddau	Rhoi sgiliau i aelodau a staff FLAG i gydnabod pa weithgareddau sy'n cyfrannu fwyaf at gyflawni amcanion yr FLDS a deall y ffactorau sy'n effeithio ar lwyddiant neu fethiant.
Technegau monitro prosiect	Rhoi sgiliau i aelodau a staff FLAG i fonitro gweithgareddau er mwyn datblygu'r gweithgareddau ymhellach a sicrhau eu bod yn cwmpasu LEADER ac yn profi ffyrdd newydd o ddatblygu eu tiriogaeth.
Sgiliau hwyluso	Gwella sgiliau hwyluso staff er mwyn eu galluogi i sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad llawn aelodau yng ngweithgareddau'r FLAG.

Bydd y cynllun hyfforddi dangosol hwn yn cael ei adolygu unwaith y bydd holl aelodau FLAG ac aelodau staff newydd wedi eu penodi ac asesiad o aelodau a sgiliau a gwybodaeth staff FLAG wedi'u gwneud.

Cyfleoedd Ychwanegol i Gydweithio a Lleihau Costau

Yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd a gafwyd drwy gyllid a gweinyddiaeth, ceisir cyfleoedd eraill hefyd i leihau costau tra'n cadw annibyniaeth y FLAG. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol :

- **Cylchlythyr:** Byddai cyhoeddi un cylchlythyr Cymuned Arfordir Gogledd Cymru gyda hyn yn darparu arbedion cost ac yn dosbarthu gwybodaeth berthnasol ar draws yr ardal ehangach.
- **Brand/ Enw FLAG:** Bydd y FLAGs/ Gweithgareddau yn y rhanbarth angen hunaniaeth brand. Cynigir penodi dylunydd i ddatblygu'r brand.
- **Cyfathrebu:** Bydd cyfleoedd i gynnal ymgyrchoedd e.e. ymgynghoriadau cymunedol ar draws Gogledd Cymru. Bydd bwydo i mewn i rwydwaith a chylchlythyr y GGLl yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Gallai hyn hefyd ymestyn i bresenoldeb ar y Cyfryngau Cymdeithasol.
- **Hyfforddiant FLAG:** Bydd y Corff Arweiniol yn sicrhau bod unrhyw gyfleoedd hyfforddi GGLl yn cael eu defnyddio a bydd yn cynnig yr hyfforddiant hwn i aelodau'r FLAG i leihau costau hyfforddi.
- **Ymweliadau Astudio FLAG:** Anogir aelodau'r FLAG i fynychu ymweliadau astudio â rhanbarthau eraill y DU neu'r UE i ddysgu a rhannu profiadau.

Mae'r uchod yn opsiynau i'r FLAGs newydd eu hystyried ond gyda ffocws ar leihau costau a dod o hyd i gymaint â phosibl 'am ddim'.

Cylch Gorchwyl a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Llywodraethir y Corff Arweiniol i lynu wrth y cyfansoddiad a'r cylch gorchwyl mabwysiedig (atodiad 1). Yn ogystal, mae'r Corff Arweiniol hefyd wedi cytuno ar femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Sector Pysgota (Atodiad 2). Caiff y ddau eu hadolygu'n barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth.

ADRAN 5 – GWERTH AM ARIAN

5.1	Proffiliau Cyflenwi Ariannol

- Ni ddylai Costau Rhedeg a Chostau Animeiddio fod yn fwy na 25% o gyfanswm cronfeydd EMFF (llai costau paratoi)
- Gall Costau Rhedeg, Costau Animeiddio a Chostau Paratoadol gael eu hariannu 100% trwy EMFF
- Rhaid i gostau gweithredu'r EMFF gynnwys o leiaf 20% o arian cyfatebol
- Dylid nodi ffynonellau arian cyfatebol, gan gynnwys y math (h.y. arian parod neu mewn nwyddau)
- Noder bod y defnydd o gostau symlach yn orfodol, ac eithrio Costau Paratoadol (a fydd yn seiliedig ar gostau gwirioneddol)
- Rhaid darparu sail resymegol lawn (gan gynnwys esboniad o dybiaethau) ar gyfer yr holl gostau er mwyn dangos rhesymolrwydd costau
- Costau Paratoadol - Esboniad o sut mae'r gweithgareddau'n ymwneud â datblygu SDLl neu feysydd cymorth paratoadol CLLD eraill sy'n gyson ag Adran 5 Rhaglen Weithredol EMFF
- Esboniad o sut mae'r costau a'r gweithgareddau arfaethedig yn ymwneud â Chostau Gweithredu, Costau Rhedeg ac Animeiddio sy'n ofynnol i gefnogi cyflenwi'r SDLl
- Caniateir goddefiad o 15% ar bob pennawd gwariant Proffil Cyflenwi

I'W GWBLHAU PAN FYDD Y DYRANIADAU WEDI EU GWNEUD

ADRAN 6 – DANGOSYDDION A CHANLYNIADAU

6.1 Monitro a Chanlyniadau

Dylai'r Adran hon gynnwys y canlynol fel lleiafswm:

- Naratif manwl o'r allbynnau, canlyniadau ac effeithiau disgwyliedig a fydd yn deillio o'r gweithrediadau arfaethedig, gan gynnwys:
    - y cyflawniad a ragwelir yn erbyn dangosyddion canlyniad ac allbwn Rhaglen Weithredol CLLD EMFF
    - y cyflawniad a ragwelir yn erbyn y targedau a nodwyd yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 1243/2014
- Targedau mesuradwy ar gyfer allbynnau a chanlyniadau at delerau meintiol neu ansoddol

BYDD ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU AC EFFEITHIAU YN CAEL EU CWBLHAU Â'U BOD WEDI EU MEINTIOLI A'U CYMHWYSO

6.2 Cynllun Gwerthuso

Bydd gan gynllun gwerthuso Menter Môn ar gyfer FLAG Gogledd Cymru ddwy brif elfen:

- **Trefnu Cynnydd Cronnus Mewnol**

Bydd Monitro Mewnol o feintiau a gwerthusiad ansoddol yn cynnwys y proffil cyflenwi canlynol:

1. Sefydlu Dangosyddion Gwaelodlin ar gyfer pob amcan. I'w gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2017. I gynnwys:
a) Nodi paramedrau a dangosyddion sy'n berthnasol i bob thema
b) Nodi ffynonellau data ar gyfer y paramedrau a'r dangosyddion hyn
c) Cipio'r data ar gyfer pob thema
d) Casglu a chyflenwi gridiau gwaelodlin

2. Sefydlu system casglu data ar gyfer coladu cynnydd yn erbyn pob dangosydd.

3. Cyfuno dangosyddion ar gyfer yr holl themâu trawsbynciol (CCT). I'w gwblhau erbyn Gorffennaf 2017.

4. Cyfuno dangosyddion cyffredin - i'w gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2017.

5. Sefydlu systemau ansoddol ar gyfer asesu perfformiad o ran ymgysylltu a chyfranogi - i'w gwblhau erbyn diwedd Medi 2017.

6.Sefydlu systemau ar gyfer cyfarfod tîm gwerthuso chwarterol ac adrodd blynyddol ar werthusiad cronnus - i'w gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2017.

Er mwyn gwneud gwerthusiad yn ystyrlon ac yn gyfrannol i broses fonitro barhaus, mae'n bwysig nodi y bydd pob gweithgaredd newydd a gadarnheir i'w gymeradwyo, wedi'i osod yn erbyn pob Amcan Penodol o fewn pob thema, yn ei gwneud yn ofynnol gosod asesiad cyflwr gwaelodlin o'r sefyllfa lle mae'r arloesedd i gael ei ddefnyddio. Y rhain yw'r llinellau sylfaen yr ydym yn eu holi nawr, felly pan fydd gweithred neu arloesedd neu newid gwasanaeth wedi'i gwblhau, bydd cymharydd gwaelodlin ar gael a all gynorthwyo gyda gwerthusiad meintiol ac ansoddol parhaus, gan gyfrannu data at y swyddogaeth fonitro ac yn gronnus i werthusiad trosfwaol.

Er enghraifft, bydd yr amcanion strategol sy'n ymwneud yn benodol â grwpiau oedran hyfforddi (SO3/ SO10) yn cynnwys deall y grŵp demograffig ac oedran y byddai'r amcan hwn yn ei wasanaethu orau. Bydd y gweithgareddau'n sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chynnwys fel y gellir cynnal gwerthusiad cywir i asesu effaith y gweithgaredd. Yn ogystal, seilir asesiad gwaelodlin ar weithgareddau'r gadwyn gyflenwi fel yn SO1 ac SO5 ar gam cyntaf y prosiect (os na chawsant eu casglu neu eu nodi eisoes) megis cyfaint/ costau cynhyrchu/ amser cyn y gweithgaredd a chofnodi'r un wybodaeth yn ystod ac ar ôl y prosiect i fesur yr effaith, os o gwbl.

Cytunir ar y dulliau penodol y bydd y FLAG yn eu defnyddio ar gyfer y gwerthusiad yn ystod cyfarfod cyntaf yr aelodau. Er enghraifft, dan ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesedd ym mhob cam o gadwyni cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu, sy'n cwmpasu SO1-SO5, ceir dangosydd neu allbwn perfformiad meintiol penodol. Bydd pob prosiect y cytunir arno o fewn y 6 amcan hyn yn cael gwerthusiad mewnol a gyflwynir i'r aelodau i feintioli'r canlyniadau disgwyliedig e.e. nifer y swyddi a grëwyd, ond bydd elfen ansoddol glir wedi'i chynnwys gyda'r FLAG h.y. pa sector sydd wedi elwa, oriau a weithiwyd, datblygiad y swyddi a grëwyd, cydnabyddiaeth nad oes sicrwydd economaidd a chymdeithasol arall i'r dyfodol. Adolygir hyn yn feirniadol gyda'r FLAG ar ôl cwblhau'r prosiect. Yn ogystal, bydd arbenigedd aelodau'r FLAG yn hanfodol i sicrhau bod y dull gwerthuso yn cynhyrchu tystiolaeth o broses ac effaith gadarn.

- **Gwerthusiad Annibynnol Allanol**

Mae prosiectau EFF blaenorol yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi cael eu gwerthuso gan ymgynghorwyr allanol. Mae'r rhain wedi bod yn sail i hysbysu'r FLAG presennol o effaith yr amrywiol weithgareddau yn ogystal â chyfeiriad prosiectau yn y dyfodol, gan gynnwys y Strategaeth Datblygu Lleol hon. Bydd y dull o benodi ymgynghorwyr addas i werthuso'r rhaglen LEADER nesaf yng Ngogledd Cymru yn parhau.

Yn flaenorol, roedd y fethodoleg werthuso a fabwysiadwyd yn ymgymryd ag ymchwil eilaidd a chynradd ac yn gwerthuso'r broses a'r effeithiau. Roedd y canfyddiadau'n seiliedig ar dystiolaeth, ac felly cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys rheoli, cyflenwi a chyfranogwyr. Teimlir mai pwrpas craidd gwerthusiad yw mesur effaith a hysbysu gwelliannau i brosiectau, er mwyn nodi beth sy'n gweithio'n dda a pham.

Bydd gwerthuso yn eitem ar agenda cyfarfod cyntaf y GGLl a bydd Menter Môn fel y Corff Gweinyddol yn gwneud argymhelliad yn seiliedig ar y canllawiau ysgrifenedig ar werthusiadau ar lefel leol a baratowyd gan dîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso WEFO. Bydd swyddogion o'r Corff Arweiniol ac aelodau'r FLAG, os yw'n berthnasol, hefyd yn mynychu gweithdai hyfforddi ar y broses werthuso.

Bydd cytuno ar y fethodoleg a'r fframwaith gwerthuso yn gynnar yn y cyfnod rhaglen (o fewn 6 mis) yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gweithgaredd. Bydd pawb sy'n ymwneud â chyflenwi prosiectau yn diogelu bod yr holl wybodaeth a ystyrir yn hanfodol yn cael ei chofnodi a'i darparu mewn fformat addas. Bydd buddiolwyr hefyd yn cael gwybod am y fethodoleg werthuso, ynghyd â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi. Bydd hyn yn gwarantu bod y gwerthusiad yn cael ei ystyried yn rhan annatod o Raglen CLLD yng Ngogledd Cymru.

Amserlen Gwerthuso Mewnol ac Allanol		
Mehefin 2017	Casglu data gwaelodlin ar gyfer pob amcan a gasglwyd	Mewnol
Gorffennaf 2017	Uno CCT a dangosyddion cyffredin	Mewnol
Gorffennaf 2017	Cytunoar fethodoleg a fframwaith gwerthuso allanol a phenodi gwerthuswr allanol	Allanol
Medi 2017	Sefydlu systemau ansoddol ar gyfer asesu perfformiad	Mewnol
Rhag 2017	Monitro perfformiad systemau a dangosyddion yn erbyn targedau	Mewnol
Mehefin 2018	Monitro perfformiad systemau a dangosyddion yn erbyn targedau	Mewnol
Rhag 2018	Monitro perfformiad systemau a dangosyddion yn erbyn targedau	Mewnol
Rhag 2018	Gwerthusiad allanol interim o berfformiad hyd yma - yn canolbwyntio ar brosesau	Allanol
Mehefin 2019	Monitro perfformiad systemau a dangosyddion yn erbyn targedau	Mewnol
Rhag 2019	Monitro perfformiad systemau a dangosyddion yn erbyn targedau	Mewnol
Mehefin 2020	Monitro perfformiad systemau a dangosyddion yn erbyn targedau	Mewnol
Rhag 2020	Monitro perfformiad systemau a dangosyddion yn erbyn targedau	Mewnol
Mehefin 2021	Coladu terfynol y dangosyddion perfformiad	Mewnol

Mae'r diagram canlynol yn nodi sut y cynhelir y gwerthusiad:



Bydd pawb sy'n ymwneud â chyflenwi gweithgareddau yn diogelu bod yr holl wybodaeth yr ystyrir sy'n hanfodol yn cael ei chofnodi a'i darparu mewn fformat addas mewn modd cyson drwy gydol y Rhaglen. Bydd buddiolwyr hefyd yn cael gwybod am y fethodoleg werthuso, ynghyd â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi. Bydd hyn yn gwarantu bod y gwerthusiad yn cael ei ystyried yn rhan annatod o Raglen CLLD yng Ngogledd Cymru.

Bydd y fethodoleg werthuso yn sicrhau bod y data sylfaenol canlynol yn cael ei gasglu fel lleiafswm, yn amodol ar ddata ychwanegol yn ôl y gofyn:

- Enw
- Manylion cyswllt
- Dyddiad Geni

- Rhyw
- Iaith
- Grŵp oedran
- Statws cyflogaeth
- Ethnigrwydd

Sut y caiff y strategaeth Ddatblygu ei defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn amcanion y rhaglen.

Wrth gytuno ar y fethodoleg a'r fframwaith gwerthuso, bydd y dangosyddion perfformiad yn cael eu dyrannu yn erbyn pob amcan strategol yn unol â'r math o brosiect neu weithgaredd y bydd FLAG yn ceisio'i gefnogi.

Bydd y grŵp FLAG yn chwarae rôl weithredol wrth asesu a yw'r strategaeth ddatblygu yn perfformio yn ôl y disgwyl bob chwarter, gyda'r data wedi'i goladu a'i grynhoi yn rhan annatod o'r adroddiadau chwarterol hyn. Isod ceir rhai enghreifftiau o'r dulliau ar gyfer pob strategaeth: -

Amcan EMFF	Amcan Penodol FLAGGC	Ffocws a dulliau gwerthuso posibl
Ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesedd ar bob cam o gadwyni cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu	SO1	Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaeth gychwynnol a rhoi gwerth ychwanegol i ddynameg cyflenwi a phrosesu lleol yn y sector bwyd. Data gwaelodlin - capasiti presennol yn cynnwys arolwg prosesu (gan gynnwys cofnodi symudiad) a nodi modelau presennol). Cofnodi meintiol o gyfaint prosesu cyn/ ar ôl ehangu gweithgaredd a chyfleusterau neu eu nodi i'w datblygu. Yn ogystal, sut mae'r broses wedi ymgysylltu â'r diwydiant ac wedi creu perthynas newydd o fewn y sector cyflenwi.
	SO2	Gyrru'r agenda Bwyd Môr a Physgod Cregyn i fyny yng Ngogledd Cymru, gan gysylltu'n arbennig ag ychwanegu gwerth at gynnyrch sylfaenol ac arbenigedd Bwyd Môr. Bydd yr amcanion yn y strategaeth hon yn cael eu nodi'n glir a bydd y strategaeth wedi'i chysylltu'n agos â gweithgareddau Cymru Gyfan gyda'r agenda. Disgwylir cynnydd penodol mewn argaeledd, cydweithredu a datblygu cynnyrch newydd.
	SO3	Darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc yn eu sir gartref a chadw ein pobl ifanc yn yr ardal. O gydweithio ac ymchwil gyda sefydliadau fel Seafish, bydd gweithgareddau'n canolbwyntio ar ddethol gofalus o gyfranogwyr nad ydynt yn ymwybodol o'r diwydiant, o ddaliad cynradd i brosesu terfynol. Bydd unrhyw ddylanwad economaidd-gymdeithasol arall ar allbynnau'r prosiect yn cael ei nodi'n ofalus h.y. ymgyrchoedd gan Lywodraeth Cymru, ymgyrchoedd diwydiant lleol neu golegau i fynd i mewn i'r diwydiant, sicrhau bod dechreuwyr i'r diwydiant yn ganlyniad uniongyrchol i weithgaredd y prosiect.
	SO8	Datblygu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a busnes i bobl leol drwy ynni adnewyddadwy. Yma, mae cynnydd yng nghyfleusterau a gallu'r busnesau bach a chanolig lleol i fanteisio ar ynni adnewyddadwy ar y môr a mewnfuddsoddi i'r ardal. Yma, mae'r pwyslais ar greu'r cyfleoedd i arallgyfeirio trwy ddeall gofynion y gwasanaethau ar y tir/ oddi ar y tir sydd eu hangen ar gyfer y sector hwn. Byddai methodoleg gwerthuso yn cynnwys gwerthuso'r broses o gydweithredu a'i heffeithiolrwydd, y lefel o fuddsoddiadau y mae

		SMEs efallai yn eu hystyried, ac a yw'r gweithgareddau wedi nodi'r risgiau a'r manteision yn glir.
Hyrwyddo llesiant cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaeth, gan gynnwys pysgodfeydd a threftadaeth ddiwylliannol morol	SO11	Sicrhau gwerth economaidd lleol pellach i weithredwyr lleol o Lwybr Arfordir Gogledd Cymru a safleoedd Eiconig Cenedlaethol. Yma mae'n rhaid i weithgareddau sy'n tynnu defnyddwyr at y llwybr troed a safleoedd eiconig sicrhau bod y prosiect wedi tynnu sylw at yr ardal ffocws, a bydd y gwerthusiad yn cael ei wneud yn bennaf trwy waith arolwg gydag ymwelwyr lleol a thu hwnt. Bydd yr arolygon yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau tystiolaeth o effaith y gweithgaredd uwchlaw gweithgareddau cenedlaethol neu leol eraill.
Cryfhau rôl cymunedau pysgodfeydd mewn datblygu lleol a llywodraethu adnoddau pysgodfeydd lleol a gweithgareddau morol	SO14	Darparu cyngor, cefnogaeth a chyfleusterau i gymunedau lleol. Bydd y broses o ddatblygu lleol a arweinir gan y gymuned yn dechrau gyda chydnabod cymunedau o ddiddordeb sydd eisoes yn bodoli, a datblygu eu sgiliau i gryfhau'r arfordir. Bydd proses LEADER yn cael ei hymgorffori a'i gwerthuso nid yn unig ar gyfer gweithgareddau yr ymgymerir â hwy ond hefyd edrych ar gynaliadwyedd y grwpiau a nodwyd ac yr ymgysylltwyd â hwy.

ADRAN 7 – ADDASRWYDD YMYRRAETH

7.1 Disgrifiad o gyfranogiad y gymuned a rhanddeiliaid yn natblygiad y strategaeth a'i gweithrediad.

Ymgynghori

Ymgymerwyd â'r broses ymgynghori gymunedol gan swyddogion Menter Môn, y Corff Gweinyddol enwebedig ar gyfer Gogledd Cymru ar y cyd â **grŵp llywio FLDS Gogledd Cymru**. Roedd manteision hyn yn ddeublyg:

• Roedd y swyddogion wedi cyflenwi'r prosiect EFF blaenorol yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac felly roeddent yn gyfarwydd â rhwydweithiau rhanddeiliaid, buddiolwyr blaenorol a sefydliadau partner. Roedd y staff hefyd yn hysbys i'r Ymgyngoreion, ac felly roedd y trafodaethau'n fwy gwybodus a chynhyrchiol nag a fyddai wedi bod fel arall.

• Mae'r broses ymgynghori yn parhau trwy gydol cyflenwi'r rhaglen CLLD. Felly mae manteision amlwg o sefydlu perthynas yn ystod y cyfnod ymgynghori y gellir ei ddatblygu drwy gydol y cyfnod cyflenwi. Mae hyn yn sicrhau bod momentwm y prosiect yn cael ei gynnal.

Ymgyngoreion

Mae proses ymgynghori CLLD angen dull eang sy'n ymgysylltu â chynulleidfa eang gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Er mwyn sicrhau bod y broses ymgynghori yn gynhwysol ac yn gytbwys penderfynwyd nodi pedwar prif gategori o ymgyngoreion, yr oedd pob un ohonynt angen cynrychiolaeth deg. Amlinellir y categorïau yn y tabl isod:

Grŵp Targed

- Merched
- Pobl ifanc
- Siaradwyr Cymraeg
- Mentrau micro a bach
- Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- Y rhai a dan-gyflogir

Thematig

- Ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesedd ar bob cam o gadwyni cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu.
- Cefnogi arallgyfeirio o fewn neu y tu allan i bysgodfeydd masnachol, dysgu gydol oes a chreu swyddi mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu.
- Gwella a manteisio ar asedau amgylcheddol yr ardaloedd pysgodfeydd a dyframaeth, gan gynnwys gweithrediadau i liniaru newid yn yr hinsawdd;

- Hyrwyddo lles cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol, dyframaeth a morol;
- Cryfhau rôl cymunedau pysgodfeydd mewn datblygu lleol a llywodraethu adnoddau pysgodfeydd lleol a gweithgareddau morol

Sector

- Pysgota
- Prosesu Pysgod
- Manwerthu
- Ymchwil
- Cyhoeddus
- Cymuned

Sir

- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Conwy
- Gwynedd
- Ynys Môn

Roedd yr ymgyngoreion (unigolion neu grwpiau) yn aml yn cynrychioli mwy nag un categori e.e. siaradwr Cymraeg o ardal arfordirol sydd â diddordeb mewn ymchwil. Fodd bynnag, roedd yr ymarfer hwn yn bwysig i sicrhau nad oedd unrhyw fylchau yn y broses.

Methodoleg ymgysylltu

Gellir gosod y dulliau ymgysylltu a fabwysiadwyd mewn tri chategori. Roedd y rhain fel a ganlyn :

1 Ymgynghoriad un i un - Roedd y rhain yn gyfweliadau a drefnwyd ymlaen llaw gydag unigolion allweddol a oedd yn cynrychioli categorïau ymgyngoreion .

2 Trafodaethau grŵp - Roedd y rhain yn drafodaethau gyda rhwydweithiau a grwpiau presennol a oedd yn cynrychioli'r categorïau ymgyngoreion lle bo'n bosibl .

3 Arolygon electronig (gan ddefnyddio survey monkey). Ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.

Pwy	**Grwpiau Targed/ Sectorau**	**Cyswllt Amcan EMFF:**
Cyfweliadau Un i Un		
Sion Williams - Cadeirydd Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn	Pysgotwyr	Y cyfan
Richard Dyer - Cymdeithas Pysgotwyr Gogledd Cymru	Pysgotwyr a phrosesu pysgod	Y cyfan
Mark Gray - Cymdeithas Pysgotwyr Cymru/ Môn Seafood	Pysgotwyr a dyframaethwyr/ Bwyd Môr a Physgod Cregyn	Y cyfan
Brett Garner - Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn	Pysgotwyr, gweithredwr teithiau ac ymchwilydd	Y cyfan
Tom a Trevor Jones - Cregyn Gleision Conwy	Prosesydd a manwerthwr pysgod cregyn	Y cyfan
Ellen Edwards - Rheolwr rhaglen LEADER y Cynllun Datblygu Gwledig, Cyngor Conwy	Grŵp LEADER a rheolwr cronfeydd ESI	Y cyfan
Graham Sharp - Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru	Y cyfan

Dafydd Gruffydd - cynrychiolydd Datblygiad Morlais	Sector Ynni Adnewyddadwy ar y Môr	Amcan 2
Gwahoddiad e-bost i lenwi holiadur ar-lein		
Cymdeithas Pysgotwyr Gogledd Cymru	Aelodau Pysgotwyr Gogledd Cymru	Y cyfan
Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn	Aelodau Pysgotwyr Crancod a Chimychiaid Llŷn	Y cyfan
Cymdeithas Cewyllwyr Llŷn	Aelodau pysgotwyr Llŷn	Y cyfan
Cymdeithas Pysgotwyr Cymru	Pysgotwyr ac aelodau Cymreig	Y cyfan
Shaun Krijnen, Menai Oysters	Ffermwr wystrys a chregyn gleision	Y cyfan
Grŵp Bwyd Gorau Môn Ynys Môn	Proseswyr bwyd a manwerthwyr sy'n ffocysu ar ar darddiad lleol	Y cyfan
